Joint Council for Qualifications

# Cyfarwyddiadau ar gyfer cynnal asesiadau di-arholiad (manylebau TAG a TGAU)

## 1 Medi 2025 hyd at 31 Awst 2026

**Dyma'r ddogfen y dylai athrawon pwnc, uwch arweinwyr a phenaethiaid canolfannau gyfeirio ati i gael un ffynhonnell bendant o ganllawiau a chyfarwyddiadau sy'n gyffredin i'r cymwysterau TAG a TGAU.**

**Cynhyrchwyd ar ran:**

©2025

**Cynnwys**

| | | |
|---|---|---|
| | **Rhagair** | **3** |
| **1** | **Asesiadau di-arholiad: yr egwyddorion sylfaenol** | **4** |
| **2** | **Rheoli asesiadau di-arholiad: gosod tasgau** | **5** |
| **3** | **Rheoli asesiadau di-arholiad: rhyddhau tasgau** | **6** |
| **4** | **Rheoli asesiadau di-arholiad: gwneud tasgau** | **7** |
| **5** | **Asesiadau di-arholiad: marcio tasgau – cydrannau sy'n cael eu hasesu'n allanol** | **15** |
| **6** | **Asesiadau di-arholiad: marcio tasgau – cydrannau sy'n cael eu hasesu'n fewnol** | **16** |
| **7** | **Trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol** | **24** |
| **8** | **Ystyriaeth arbennig a cholli gwaith** | **25** |
| **9** | **Camymddwyn** | **29** |
| **10** | **Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau** | **31** |
| **11** | **Materion eraill** | **33** |
| | **Atodiad 1 – Arnodiad Sgiliau Ymarferol ar gyfer Safon Uwch y Gwyddorau a ddyluniwyd i'w ddefnyddio yn Lloegr** | **35** |
| | **Atodiad 2 – Arnodiad Iaith Lafar ar gyfer manylebau TGAU Saesneg Iaith a ddyluniwyd i'w ddefnyddio yn Lloegr** | **41** |
| | **Atodiad 3 – Ymgeiswyr sy'n dysgu o bell** | **47** |

## Rhagair

Mae'r ddogfen CGC hon yn berthnasol i gymwysterau TAG a TGAU a achredwyd yng Nghymru neu yn Lloegr ac sy'n cynnwys cyfran o asesu di-arholiad.

Mae’n golygu bod gan athrawon pwnc, uwch arweinwyr a phenaethiaid canolfannau un ffynhonnell bendant o ganllawiau a chyfarwyddiadau sy’n gyffredin.

Mae diffiniad y rheoleiddwyr o arholiad yn gul iawn. I bob pwrpas, mae asesiad di-arholiad yn cael ei ystyried yn unrhyw fath o asesiad **nad yw**:

- wedi'i osod gan gorff dyfarnu;
- wedi'i ddylunio i'w sefyll gan yr holl ymgeiswyr ar yr un pryd ar adeg a bennir gan y corff dyfarnu; ac
- wedi'i sefyll dan amodau a nodir gan y corff dyfarnu (gan gynnwys amodau yn ymwneud â goruchwylio ymgeiswyr yn ystod yr asesiad a thrwy gydol y cyfnod asesu).

Felly, mae Asesiad Di-arholiad yn cynnwys asesiad mewnol, ond nid yw'n gyfyngedig i hyn. Mae arholiadau ymarferol sy'n cael eu marcio'n allanol a/neu eu gosod yn allanol ac sy'n cael eu cymryd ar amseroedd gwahanol ar draws canolfannau hefyd yn cael eu hystyried yn Asesiad Di-arholiad.

Yr egwyddorion ar gyfer asesiad di-arholiad fel sydd wedi'u pennu gan y rheoleiddwyr cymwysterau ar gyfer Cymru a Lloegr yw:

- dim ond os mai asesiad di-arholiad yw'r unig ffordd ddilys o asesu gwybodaeth a sgiliau hanfodol y dylid ei ddefnyddio;
- **rhaid** cael cydbwysedd mewn asesiad di-arholiad rhwng asesiad dilys o wybodaeth a sgiliau hanfodol, arfer asesu cadarn a'i bod yn hwylus;
- dylai unrhyw asesiad di-arholiad gael ei ddylunio i ateb gofynion y pwnc penodol gan gynnwys pwysoli perthnasol yr arholiadau ysgrifenedig.

Mae unrhyw newidiadau a wnaed i gynnwys y ddogfen hon ers y fersiwn blaenorol (1 Medi 2024 hyd at 31 Awst 2025) wedi'u hamlygu mewn melyn fel eu bod yn hawdd eu gweld.

## 1 Asesiadau di-arholiad:  yr egwyddorion sylfaenol

### Beth yw asesiadau di-arholiad?

Mae asesiadau di-arholiad yn mesur gwybodaeth a sgiliau pwnc-benodol na ellir eu profi gan bapurau ysgrifenedig sy'n cael eu hamseru.

Mae tri cham asesu a rheolau sy'n berthnasol i bob cam. Yn aml mae'r rheolau hyn yn amrywio ar draws y pynciau. Y camau yw:

- gosod tasgau;
- gwneud tasgau;
- marcio tasgau.

### Sut mae'r cyrff dyfarnu'n monitro'r broses o reoli asesiadau di-arholiad mewn canolfannau?

Mae cyrff dyfarnu yn gofyn i bob canolfan gael polisi asesiad di-arholiad ar waith i wneud y canlynol:

- cynnwys gweithdrefnau ar gyfer cynllunio a rheoli asesiadau di-arholiad;
- diffinio rolau a chyfrifoldebau staff yng nghyd-destun asesiadau di-arholiad;
- rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag asesiadau di-arholiad.

Gall arolygwr canolfannau'r CGC ofyn i'r swyddog arholiadau gadarnhau bod polisi ar waith. Bydd y canllawiau a ddarperir yn y ddogfen hon yn helpu pennaeth y ganolfan i sicrhau bod polisi'r ganolfan yn gadarn ac yn addas at y pwrpas.

Yn ychwanegol, mae'n rhaid i bob canolfan fod â gweithdrefn apelio fewnol ar gael sy'n ymwneud â phenderfyniadau asesu mewnol.

### Pa fanylebau TAG a TGAU y mae'r cyfarwyddiadau hyn yn ymdrin â nhw?

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn berthnasol i bob manyleb TAG a TGAU sydd ag un neu fwy o gydrannau asesiad di-arholiad.

Gweler Atodiadau 1 a 2 am gyfarwyddiadau ar yr arnodiadau – Sgiliau Ymarferol (TAG Safon Uwch Bioleg, Cemeg, Daeareg a Ffiseg) ac Iaith Lafar (TGAU Saesneg Iaith – Lloegr yn unig).

Ar gyfer cynnal cydrannau TAG a TGAU Celf a Dylunio a osodir yn allanol, gweler dogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*. Mae'r ddogfen  ar gael ar fformat PDF ar wefan y CGC: https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

## 2 Rheoli asesiadau di-arholiad: gosod tasgau

### Pwy sy'n ymwneud â gosod tasgau?

Lle mae'r corff dyfarnu yn gyfrifol am osod tasgau, bydd tasgau pwnc-benodol yn cael eu darparu gan y corff dyfarnu.

Lle mae'r ganolfan yn gyfrifol am osod tasgau, gall canolfannau wneud y canlynol:

- dewis o blith nifer o dasgau cymharol a ddarperir gan y corff dyfarnu; neu
- ddylunio eu tasg(au) eu hunain, ar y cyd ag ymgeiswyr lle caniateir hynny, gan ddefnyddio'r meini prawf a nodwyd yn y fanyleb.

Lle mae canolfannau yn gyfrifol am osod tasgau mae'n **rhaid** iddynt gyfeirio at fanyleb y corff dyfarnu i sicrhau y gellir bodloni'r meini prawf asesu a bod y tasgau'n hygyrch i ymgeiswyr.

> Yn y cymhwyster Safon Uwch Daearyddiaeth, mae Amodau a Gofynion Lefel-Pwnc Ofqual yn nodi bod rhaid i bob ymgeisydd gynnal un ymchwiliad annibynnol yn seiliedig ar gwestiwn neu fater sydd wedi'i ddiffinio a'i ddatblygu gan yr ymgeisydd. Gall canolfannau roi arweiniad cyffredinol ond **ni ddylent** gynnig dewis o deitlau neu dasgau i'r ymgeiswyr ddewis ohonyn nhw wedyn.

### A yw'n dderbyniol rhoi copi o'r meini prawf marcio i ymgeiswyr?

**Ydy.** Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r meini prawf a ddefnyddir i asesu eu gwaith. Yna byddant yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i ennill marciau. Mae manylebau'n disgrifio'r meini prawf marcio'n fanwl. Mae'n berffaith dderbyniol i athrawon greu fersiwn wedi'i symleiddio o'r meini prawf marcio sy'n haws i ymgeiswyr ei ddeall, ar yr amod nad yw'n benodol i waith ymgeisydd unigol neu grŵp o ymgeiswyr.

## 3 Rheoli asesiadau di-arholiad: rhyddhau tasgau

### Pa bryd mae tasgau sydd wedi'u gosod gan gyrff dyfarnu yn cael eu rhyddhau i'r canolfannau?

**Rhaid** i ganolfannau gyfeirio at fanyleb a/neu wefan y corff dyfarnu perthnasol i gael y dyddiad pan fydd y tasgau yn cael eu rhyddhau. Mae cyrff dyfarnu’n cyhoeddi tasgau ymhell ymlaen llaw er mwyn caniatáu amser i ganolfannau gynllunio, dod o hyd i adnoddau ac addysgu’r ymgeiswyr.

### Pa gamau y dylid eu cymryd os rhoddir y dasg anghywir i ymgeiswyr?

**Rhaid** i'r ganolfan wneud trefniadau i ymgeiswyr gyflawni'r dasg gywir a dylai gymryd gofal mawr i sicrhau eu bod yn gwneud hynny. Bydd cyrff dyfarnu’n gwneud popeth yn eu gallu i ddiogelu buddiannau ymgeiswyr ond mewn rhai achosion efallai na fydd yn bosibl derbyn gwaith sy’n seiliedig ar y dasg anghywir.

## 4 Rheoli asesiadau di-arholiad: gwneud tasgau

### 4.1 Goruchwyliaeth

Lle y bo'n briodol i'r gydran sy'n cael ei hasesu, y trefniadau canlynol sy'n berthnasol oni bai bod manyleb y corff dyfarnu'n nodi fel arall.

**Nid** oes gofyn cael goruchwylwyr ac arddangos posteri'r CGC *Eitemau anawdurdodedig* a *Rhybudd i Ymgeiswyr* y CGC.

**Nid oes** rhaid goruchwylio'r ymgeiswyr yn uniongyrchol drwy'r amser. Nid oes cyfyngiadau llym o ran defnyddio dulliau, gan gynnwys y rhyngrwyd. Mae'n **rhaid** i ganolfannau bob amser wirio'r gofynion pwnc-benodol a gyhoeddir gan y corff dyfarnu.

**Rhaid** i'r ganolfan sicrhau:

- bod digon o oruchwyliaeth i bob ymgeisydd er mwyn galluogi dilysu'r gwaith;
- mai gwaith unigol yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu.

Gellir cwblhau'r gwaith y tu allan i'r ganolfan heb oruchwyliaeth uniongyrchol, ar yr amod bod y ganolfan yn hyderus mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gynhyrchwyd. Fel arfer bydd ymgeiswyr yn cael gwneud y canlynol:

- defnyddio adnoddau electronig ac adnoddau print heb gyfyngiadau;
- defnyddio'r rhyngrwyd heb gyfyngiadau;
- gweithio mewn grwpiau.

Lle mae ymgeiswyr yn gweithio mewn grwpiau, dylai'r athro gadw cofnod o gyfraniad pob ymgeisydd fel ei bod yn bosibl priodoli canlyniadau y gellir eu hasesu i ymgeiswyr unigol (gweler adran 4.5).

**Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr yn deall yr hyn y mae angen iddyn nhw ei wneud i gydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer asesiadau di-arholiad. Amlinellir hyn yn nogfen y CGC *Gwybodaeth i ymgeiswyr – asesiadau di-arholiad:*
https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_1

**Rhaid** i ganolfannau sicrhau bod ymgeiswyr:

- yn deall bod yn rhaid cyfeirio at wybodaeth o bob ffynhonnell;
- yn derbyn canllawiau ar sut i gyfeirio'n gywir;
- yn ymwybodol na ddylent lên-ladrata o ddeunyddiau eraill.

### 4.2 Cyngor ac adborth

Fel sy'n briodol i'r pwnc a'r gydran, **cyn** dechrau ar y gwaith dylai canolfannau gynghori ymgeiswyr ynghylch agweddau fel y rhai ar y rhestr isod:

- ffynonellau gwybodaeth;
- perthnasedd y deunyddiau a chysyniadau;
- strwythur yr ymateb (e.e. teitlau a chynnwys penodau);
- technegau casglu data;
- technegau cyflwyno data;
- sgiliau dadansoddi a gwerthuso;

- ystyriaethau iechyd a diogelwch, gan gynnwys defnyddio cyfarpar;
- ystyriaethau moesegol posibl;
- diogelwch eu gwaith.

**Ni ddylai** canolfannau roi atebion enghreifftiol na fframiau ysgrifennu yn benodol i'r dasg (megis amlinelliadau, penawdau paragraffau neu benawdau adrannau).

**Pa gyngor ac adborth y gallaf eu rhoi i ymgeiswyr yn ystod y cam gwneud tasgau?**

Oni bai ei fod wedi'i wahardd yn benodol gan fanyleb y corff dyfarnu, gall athrawon:

- adolygu gwaith ymgeiswyr a rhoi cyngor ar lafar ac yn ysgrifenedig ar lefel **gyffredinol**;
- ar ôl cynnig cyngor ar lefel gyffredinol, caniatáu i'r ymgeiswyr adolygu ac ailddrafftio gwaith.

**Nid oes** angen cofnodi cyngor cyffredinol tebyg i hyn na'i ystyried wrth farcio'r gwaith.

Os bydd athrawon yn rhoi unrhyw gymorth sydd y tu hwnt i gyngor cyffredinol, er enghraifft:

- cynnig cyngor penodol manwl ar sut i wella drafftiau i fodloni meini prawf asesu;
- rhoi adborth manwl ar wallau a hepgoriadau sy'n cyfyngu cyfleoedd ymgeiswyr i ddangos y gallant weithio ar eu liwt eu hunain;
- ymyrryd yn bersonol i wella cyflwyniad neu gynnwys darn o waith

yna **rhaid** iddynt gofnodi'r cymorth hwn a'i ystyried naill ai wrth farcio'r gwaith neu wrth gyflwyno'r gwaith i'r arholwr allanol.

Dylid defnyddio anodiadau i esbonio sut cafodd marciau eu cymhwyso yng nghyd-destun y cymorth ychwanegol a roddwyd, (gweler adran 6.1).

**Ni ddylai** athrawon asesu'r gwaith yn rhagarweiniol ac yna caniatáu i'r ymgeisydd ei adolygu.

Ym mhob pwnc ni ddylai athrawon roi unrhyw fath o gymorth sydd wedi'i wahardd yn benodol ym manyleb y corff dyfarnu.  **Ni ddylid** rhoi cymorth os nad oes modd ei gofnodi a'i ystyried wrth farcio.

**Ystyrir methu â dilyn y weithdrefn hon yn achos o gamymddwyn.**

## 4.3 Adnoddau

**Pa adnoddau a ganiateir?**

Mewn nifer o bynciau, bydd ymgeiswyr yn defnyddio deunydd ffynhonnell, gan gynnwys y rhyngrwyd a dulliau deallusrwydd artiffisial (AI), wrth ymchwilio ac wrth gynllunio eu tasgau.  **Fel arfer** mae gan ymgeiswyr fynediad heb ei gyfyngu at adnoddau.  Mae'n **rhaid** i ganolfannau gyfeirio at ddogfen y CGC *Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn Asesiadau. Diogelu Uniondeb Cymwysterau:* https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0
yn ogystal â manyleb y corff dyfarnu a/neu ddogfennaeth gysylltiedig a gyhoeddwyd gan y cyrff dyfarnu a'r rheoleiddiwr.

Mae rhai pynciau yn gofyn i ymgeiswyr gynhyrchu'r gwaith i'w asesu mewn sesiynau dan oruchwyliaeth ffurfiol. Oni bai fod manyleb y corff dyfarnu yn nodi fel arall, ar gyfer pob sesiwn dan oruchwyliaeth ffurfiol:

- mae cyfyngiadau llym **bob amser** o ran defnyddio adnoddau ac fel arfer dim ond nodiadau paratoadol yr ymgeisydd a ganiateir;
- **ni** chaniateir defnyddio’r rhyngrwyd;
- **ni** chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio eu cyfrifiaduron eu hunain na dyfeisiau electronig eraill, e.e. ffonau symudol.

### A all ymgeiswyr gyflwyno adnoddau newydd rhwng sesiynau dan oruchwyliaeth ffurfiol?

**Na allant. Ni** chaniateir i ymgeiswyr ychwanegu at nodiadau ac adnoddau rhwng sesiynau. Pan fydd gwaith sydd i’w asesu’n cael ei gynhyrchu dros gyfnod o nifer o sesiynau, **rhaid** casglu’r deunydd canlynol a’i storio’n ddiogel ar ddiwedd pob sesiwn (ac **ni ddylai** fod ar gael i ymgeiswyr):

- y gwaith i’w asesu;
- gwaith paratoadol.

Mae angen cymryd rhagofalon ychwanegol os yw'r ganolfan yn caniatáu i ymgeiswyr ddefnyddio cyfrifiaduron i storio gwaith. Gallai hyn gynnwys casglu ffyn cof i’w storio’n ddiogel rhwng sesiynau neu rwystro ymgeiswyr rhag cael mynediad i ardaloedd penodol o rwydwaith TG y ganolfan.

### Sut dylid cydnabod ffynonellau?

**Rhaid** i’r gwaith a gyflwynir i’w asesu gynnwys cyfeiriadau lle bo’n briodol. Er mwyn hwyluso’r broses hon, dylai pob ymgeisydd gadw cofnod manwl o’i waith ymchwil, gwaith cynllunio, adnoddau ac ati.
Dylai’r cofnod gynnwys yr holl ffynonellau a ddefnyddiwyd, gan gynnwys llyfrau, gwefannau a ffynonellau sain/gweledol.

Os yw ymgeiswyr yn defnyddio deunydd o ffynhonnell, neu ddeunydd wedi'i gynhyrchu o ffynhonnell lle nad eu gwaith nhw ydyw, **rhaid** iddynt nodi'r rhan, elfen neu ymadrodd penodol ac o ble y daeth. **Rhaid** i ymgeiswyr roi cyfeiriadau manwl hyd yn oed os byddant yn aralleirio’r deunydd gwreiddiol.

Dylai cyfeiriad o lyfr neu gyfnodolyn cyhoeddedig ddangos enw’r awdur, y flwyddyn gyhoeddi a rhif y dudalen. Er enghraifft: (Morrison, 2000, tud 29).

Os daw deunydd o’r rhyngrwyd, dylai’r cyfeiriad ddangos y dyddiad y cafodd y deunydd ei lawrlwytho a **rhaid** dangos yr union dudalen we, nid y peiriant chwilio a ddefnyddiwyd i ddod o hyd iddo. Gellir copïo hwn o’r llinell cyfeiriad. Er enghraifft:
http://news.bbc.co.uk/onthisday/hi/dates/stories/october/28/newsid_2621000/2621915.stm lawrlwythwyd 5 Chwefror 2026

Lle defnyddiwyd cynnwys wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur (megis sgwrsfot AI), **rhaid** i'r cyfeirnod ddangos enw'r dull AI a ddefnyddiwyd a hefyd dyddiad cynhyrchu'r cynnwys. Er enghraifft: ChatGPT 3.5 (https://openai.com/blog/chatgpt/), 25/01/2026. Dylai ymgeiswyr gyfeirnodi'r ffynonellau a ddefnyddiwyd gan y dull AI wrth gynhyrchu'r cynnwys.

Rhaid i'r myfyriwr gadw copi o'r cwestiwn (cwestiynau) a'r cynnwys wedi'i gynhyrchu gan gyfrifiadur at bwrpasau cyfeirnodi a dilysu, ar ffurf nad oes modd ei golygu (sgrinlun, er enghraifft) a chynnig esboniad byr o sut y cafodd ei ddefnyddio. Rhaid cyflwyno hyn gyda gwaith yr ymgeisydd i'w asesu'n

derfynol er mwyn i'r athro/athrawes allu adolygu'r gwaith, y cynnwys a gynhyrchwyd gan AI a sut y cafodd ei ddefnyddio. Os nad yw hyn yn cael ei gyflwyno, ac mae'r athro/athrawes yn amau bod y myfyriwr wedi defnyddio dulliau AI, bydd angen i'r athro/athrawes edrych ar bolisi camymddwyn y ganolfan i weld pa gamau i'w dilyn nesaf gan weithredu hefyd i sicrhau bod y gwaith yn waith yr ymgeisydd ei hun. Mae canllawiau pellach ar sut i wneud hyn i'w cael yn nogfen y CGC *Llên-ladrad mewn Asesiadau.* Mae'r ddogfen hon i'w chael ar wefan y CGC:
http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice

Rhaid i ganolfannau gyfeirio yn ogystal at y dogfennau CGC canlynol sydd i'w cael ar wefan y CGC:
https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

*Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn Asesiadau: Eich rôl mewn perthynas â diogelu uniondeb cymwysterau*
CGC-AI-taflen-wybodaeth-ar gyfer-athrawon-1.pdf
CGC-Poster-AI-i-fyfyrwyr-2.pdf

Rhaid i ymgeiswyr fod yn gyfarwydd â dogfen y CGC *Gwybodaeth i ymgeiswyr – asesiadau di-arholiad:*
https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_1

### 4.4 Terfynau geiriau ac amser

Dylai canolfannau gyfeirio at fanylebau cyrff dyfarnu i weld p'un a oes terfynau amser a geiriau mwyaf a/neu lleiaf.

### 4.5 Gweithio ar y cyd a gwaith grŵp

**Pryd mae gwaith grŵp yn cael ei ganiatáu?**

Oni bai fod manyleb y corff dyfarnu yn nodi fel arall, mae rhwydd hynt i ymgeiswyr gydweithio wrth wneud gwaith ymchwil a gwaith paratoadol.

Lle mae'r fanyleb yn caniatáu hynny, gellid gwneud rhai aseiniadau fel rhan o grŵp.
Gallai'r fanyleb gyfyngu ar uchafswm maint y grŵp. **Rhaid** bod yn bosibl priodoli canlyniadau y gellir eu hasesu i ymgeiswyr unigol.

Lle mae aseiniad yn gofyn am gynhyrchu gwaith ysgrifenedig, mae'n rhaid **i bob ymgeisydd ysgrifennu ei gofnod ei hun** o'r aseiniad. Mae'n dderbyniol i bob aelod o'r grŵp gofnodi'r un gwybodaeth. Fodd bynnag, rhaid i bob ymgeisydd **ddefnyddio ei eiriau ei hun** i ddisgrifio sut cafwyd y gwybodaeth a thynnu ei gasgliadau ei hun. Lle mae angen arteffact neu berfformiad, gall ymgeiswyr weithio ar y cyd, ond **rhaid** iddynt ymateb yn unigol a rhaid nodi'u cyfraniadau unigol yn glir. Rhaid i gyfraniad pob ymgeisydd unigol fod yn glir o edrych ar y gwaith ei hun a'r ffurflenni cofnodi, os yn berthnasol.

**A ddylai pob aelod o'r grŵp gael yr un marc?**

**Na ddylai.** Caniateir gwaith grŵp ond ni chaniateir asesiad grŵp. Mae aelodau unigol o'r grŵp yn gwneud cyfraniadau gwahanol a **rhaid** asesu gwaith pob ymgeisydd yn unigol.

**Sut mae credyd yn cael ei rannu i ymgeiswyr unigol?**

Mae'r ganolfan yn gyfrifol am fonitro gwaith grŵp a sicrhau bod cyfraniad pob ymgeisydd yn cael ei asesu ar wahân.

### 4.6 Gweithdrefnau dilysu

**Sut mae gwaith ymgeiswyr yn cael ei ddilysu?**

**Rhaid** i athrawon fod yn ddigon cyfarwydd â safon gyffredinol ymgeisydd i farnu p'un ag yw'r darn o waith sydd wedi'i gyflwyno o fewn gallu'r ymgeisydd hwnnw.

Lle bo'n ofynnol gan fanyleb y corff dyfarnu, mae'r gweithdrefnau canlynol yn berthnasol:

**Rhaid** i bob ymgeisydd lofnodi datganiad i gadarnhau mai ei waith digymorth ei hun yw'r gwaith a gyflwynir ar gyfer asesiad terfynol. **Rhaid** i hyn ddigwydd cyn gynted ag y bydd yr ymgeisydd wedi cwblhau'r asesiad.

**Rhaid** i athrawon lofnodi datganiad dilysu ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau yn cadarnhau'r canlynol:

- mai gwaith yr ymgeisydd dan sylw yn unig yw'r gwaith;
- bod y gwaith wedi'i gwblhau dan yr amodau gofynnol.

Mae'n dderbyniol llofnodi'r dogfennau'n electronig. Bydd enwau sydd wedi'u teipio yn cael eu hystyried yn rhai sy'n rhwymol fel llofnod wedi'i ysgrifennu â llaw.

**Rhaid** cadw datganiadau ymgeiswyr wedi'u llofnodi ar ffeil tan y bydd y terfyn amser ar gyfer gwneud cais am adolygu'r canlyniadau wedi bod neu tan y bydd unrhyw apêl, ymholiad camymddwyn neu ganlyniadau arall wedi'u cwblhau, pa bynnag un sydd hwyraf. Efallai y byddant yn destun arolygiad gan Arolygwr Canolfannau CGC.

**Beth os yw athro yn amau dilysrwydd y gwaith?**

Os nad yw athrawon yn gallu cadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith sydd wedi'i gyflwyno a'i fod wedi'i gwblhau dan yr amodau gofynnol:

- **peidiwch** â derbyn gwaith yr ymgeisydd i'w asesu;
- cofnodwch farc o '**0**' (sero) am y gwaith a asesir yn fewnol.

Os yw athrawon yn poeni am achos posibl o gamymddwyn, neu os nad ydynt yn gallu dilysu'r gwaith am unrhyw reswm arall, **rhaid** iddynt roi gwybod i aelod o'r uwch dîm arwain (gweler adran 9).

**Os gwelir nad yw'r gwaith wedi'i ddilysu'n gywir yn ystod y broses gymedroli allanol, yna bydd y corff dyfarnu'n cymryd camau i benderfynu ar unrhyw weithredu priodol, gan gynnwys gosod y marc(iau) a ddyfarnwyd yn '0' (sero).**

## 4.7 Cyflwyno'r gwaith

1. Caniatewch i ymgeiswyr gyflwyno eu gwaith ysgrifenedig drwy brosesu geiriau.
   **Nid** yw'r rheoliadau sydd i'w gweld yn adran 14 dogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau* yn berthnasol i asesiadau di-arholiad.

2. Dywedwch wrth ymgeiswyr am roi'r manylion canlynol ar bob tudalen fel pennyn neu droedyn:
   - rhif 5 digid y ganolfan;
   - rhif yr ymgeisydd;
   - cod cydran.

3. Dylech ganiatáu i ymgeiswyr ddefnyddio'r gwiriwr sillafu a gramadeg pan fyddant yn cynhyrchu gwaith yn electronig.

4. Dylech annog ymgeiswyr sy'n cyflwyno gwaith wedi'i ysgrifennu â llaw i ddefnyddio inc du ac i sicrhau y gellir darllen eu llawysgrifen.

5. Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno gwaith ar bapur A4 oni bai bod y fanyleb yn nodi'n wahanol.

6. Dylech gynnwys copïau o gyflwyniadau, siartiau, arteffactau, ffotograffau, llythyrau, fideos, recordiadau sain, trawsgrifiadau o gyfweliadau a datganiadau tyst gan athrawon sy'n goruchwylio lle bo hynny'n briodol.

7. Ystyriwch yswirio deunyddiau gwerthfawr neu fregus yn erbyn colled neu ddifrod. **Nid yw cyrff dyfarnu'n atebol am waith a gollwyd neu ddifrod a wnaed yn ystod cymedroli neu wrth i'r gwaith gael ei gludo. Peidiwch** â chynnwys eitemau o werth gwirioneddol neu bersonol fel ffotograffau neu dystysgrifau.

8. Ceisiwch gael cydsyniad gwybodus ar ddechrau'r cwrs gan rieni neu ofalwyr os bydd fideos, ffotograffau neu ddelweddau o ymgeiswyr yn cael eu cynnwys fel tystiolaeth o gymryd rhan neu gyfrannu.

9. Tynnwch unrhyw gloriau neu ffolderi swmpus **cyn** anfon y gwaith i'w gymedroli neu i gael ei farcio'n allanol.

10. Sicrhewch fod gwaith pob ymgeisydd yn cael ei gysylltu'n ddiogel a bod taflen glawr y corff dyfarnu wedi'i llenwi'n llawn ac wedi'i chysylltu â'r gwaith.

11. Os yw gwaith ymgeiswyr i'w gyflwyno'n electronig, sicrhewch ei fod yn bodloni gofynion penodol y corff dyfarnu.

## 4.8 Cadw deunyddiau’n ddiogel

### Pryd mae angen storio gwaith ymgeiswyr yn ddiogel?

Lle mae ymgeiswyr yn cynhyrchu gwaith dros gyfnod o amser dan oruchwyliaeth ffurfiol, **rhaid** storio eu gwaith yn ddiogel rhwng sesiynau.

Unwaith y bydd yr ymgeisydd wedi cyflwyno unrhyw waith i'w asesu'n ffurfiol **rhaid** storio'r gwaith hwnnw'n ddiogel.

Lle cyflwynir gwaith drwy'r post, dylai canolfannau gymryd camau i sicrhau bod y pecyn y mae'r gwaith yn cael ei anfon ynddo yn gadarn ac wedi'i glymu'n ddiogel.

### Beth mae storio cynnwys digidol yn ddiogel yn ei olygu?

**Rhaid** i'r ganolfan gadw'r gwaith a gyflwynwyd gan ymgeiswyr yn ddiogel.

Yn yr achosion hynny lle mae'r gwaith yn cael ei storio'n electronig mae'n ofynnol bod canolfannau yn cyfyngu ar fynediad i'r deunydd hwn ac yn defnyddio dulliau diogelu priodol, megis mur gwarchod a meddalwedd sganio am firysau.

**Rhaid** gwneud copi wrth gefn o waith ymgeiswyr yn rheolaidd a'i gadw'n ddiogel ar system TG y ganolfan. Dylai canolfannau ystyried y drefn wrth gefn bod copi wrth gefn yn cael ei wneud o waith ymgeiswyr ar ddwy ddyfais wahanol, gan gynnwys un copi wrth gefn oddi ar y safle. **Rhaid** i'r ganolfan roi trefniadau diogelwch gwybodaeth priodol ar waith (bydd hyn yn cynnwys amddiffyn yn erbyn llygredd a seiberymosodiad)

Dylai canolfannau ystyried amgryptio unrhyw gyfryngau digidol sensitif er mwyn sicrhau diogelwch y data sy'n cael eu storio arno. **Rhaid** i ganolfannau gyfeirio at ganllawiau cyrff dyfarnu i sicrhau bod y dull amgryptio yn addas.

### Beth mae storio gwaith nad yw'n ddigidol yn ddiogel yn ei olygu?

Ystyr storio deunyddiau’n ddiogel yw eu cadw mewn cabinet neu gwpwrdd y gellir ei gloi’n ddiogel.

Lle bo ymgeiswyr yn cynhyrchu arteffactau (e.e. Celf a Dylunio), gallai hynny olygu storio’r deunyddiau’n ddiogel mewn ystafell ddosbarth, stiwdio neu weithdy sy’n cael ei gloi neu ei oruchwylio o ddiwedd un sesiwn i ddechrau’r nesaf.

### A all athrawon fynd â gwaith adref i’w farcio?

Gallant, cyhyd â’u bod yn synhwyrol ac yn ofalus ynglŷn â chadw’r gwaith yn ddiogel.

### A yw ymgeiswyr yn cael defnyddio gwaith at bwrpasau eraill?

Cyn cyflwyno gwaith ar gyfer asesiad ffurfiol, **rhaid** i ganolfannau atgoffa ymgeiswyr i gadw eu gwaith yn ddiogel bob amser ac i **beidio** â chyhoeddi eu gwaith, e.e. ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol. **Rhaid** tynnu sylw ymgeiswyr at ddogfen y CGC *Gwybodaeth i ymgeiswyr – cyfryngau cymdeithasol*: https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_1

**Rhaid** i ganolfannau hefyd fod yn ymwybodol o'r angen i ddilysu gwaith ymgeiswyr fel y manylir yn adran 4.6.

Yn ystod y cyfnod o gyflwyno gwaith i'w asesu'n ffurfiol hyd at y terfyn amser ar gyfer gwneud cais am adolygiad o'r canlyniadau, gellir defnyddio copïau o'r gwaith at bwrpasau eraill, e.e. mewn cystadleuaeth, ar yr amod bod y fersiynau gwreiddiol wedi'u storio'n ddiogel gan y ganolfan. Gall unrhyw ddeunydd **nad** yw'n ofynnol at bwrpasau cymedroli (neu unrhyw adolygiad dilynol) gael ei ddefnyddio'n ddirwystr gan yr ymgeisydd hefyd. Mae hyn yn berthnasol i arteffactau mewn Dylunio a Thechnoleg os oes angen tystiolaeth ffotograffig ar gyfer cymedroli ac unrhyw adolygiad dilynol. Lle defnyddir gwaith gwreiddiol ar gyfer cymedroli, fel mewn Celf a Dylunio, rhaid i athro/athrawes fod yn bresennol os, yn ystod y cyfnod hwn:

- yw gwaith wedi'i asesu yn cael ei arddangos;
- yw ymgeisydd yn mynd â gwaith wedi'i asesu i gyfweliad;
- yw'r gwaith yn cael ei dynnu o storfa ddiogel am unrhyw reswm arall.

### Pryd gall y gwaith sydd wedi'i farcio gael ei dynnu allan o'r storfa ddiogel?

**Rhaid** storio gwaith a asesir yn fewnol **nad oes** ei angen yn y sampl i'w gymedroli a gwaith sy'n cael ei ddychwelyd i ganolfannau ar ôl cymedroli yn ddiogel hyd nes y bydd yr holl wasanaethau ar ôl y canlyniadau posibl wedi dod i ben. Os na fydd cais am wasanaethau ar ôl y canlyniadau, gellir dychwelyd gwaith a asesir yn fewnol at ymgeiswyr ar ôl y terfyn amser ar gyfer gwneud cais am adolygiad o'r canlyniadau i'r gyfres berthnasol.
Os bydd cais am wasanaethau ar ôl y canlyniadau, gellir dychwelyd gwaith a asesir yn fewnol unwaith y bydd yr adolygiad o'r canlyniadau ac unrhyw apêl ddilynol wedi dod i ben.

## 5 Asesiadau di-arholiad: marcio tasgau – cydrannau sy'n cael eu hasesu'n allanol

### 5.1 Cynnal gwaith sy'n cael ei asesu'n allanol

Bydd ffurf yr asesu allanol yn amrywio yn ôl y fanyleb a'r gydran.

Mae'n bosibl bod Arholwr yn Ymweld â'r Ganolfan ar gyfer rhai cydrannau, er enghraifft. Mewn cydrannau eraill, bydd gofyn anfon gwaith ymgeiswyr at arholwr neu ei uwchlwytho'n electronig. Bydd manyleb a/neu ganllaw gweinyddu y corff dyfarnu yn rhoi manylion unrhyw drefniadau pwnc-benodol.

Cynhelir cydrannau wedi'u hasesu'n allanol o fewn cyfnod amser a bennir gan y corff dyfarnu.

### 5.2 Cyflwyno gwaith

**Rhaid** i ganolfannau roi sylw gofalus i gwblhau'r gofrestr presenoldeb, (os yw'n berthnasol). Bydd methiant i wneud hynny yn effeithio ar allu'r corff dyfarnu i ddarparu set gywir o ganlyniadau.

**Rhaid** cadw copi o'r gofrestr bresenoldeb hyd nes y bydd y terfyn amser ar gyfer gwneud cais am adolygiad o'r canlyniadau wedi mynd heibio.

Yn yr achosion hynny lle mae angen anfon gwaith ymgeiswyr at arholwr neu ei uwchlwytho'n electronig, **rhaid** gwneud hynny erbyn y dyddiad a bennir gan y corff dyfarnu.

## 6 Asesiadau di-arholiad: marcio tasgau – cydrannau sy'n cael eu hasesu'n fewnol

### 6.1 Marcio ac anodi

Mae athrawon yn gyfrifol am farcio gwaith yn unol â'r meini prawf marcio a nodir yn y fanyleb berthnasol a dogfennau pwnc-benodol cysylltiedig.

Ni ddylai athrawon ddefnyddio AI fel yr unig ffordd neu'r brif ffordd o farcio gwaith ymgeiswyr. Dylai unrhyw ddefnydd o AI ategu'r broses farcio ddynol.

Dylai'r athrawon anodi'r gwaith er mwyn rhoi tystiolaeth i ddangos **sut** a **pham** mae marciau wedi'u rhoi. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o safoni'r marcio yn y ganolfan ac yn galluogi'r cymedrolwr i wirio bod y marcio wedi'i wneud yn unol â'r meini prawf asesu.

| | |
|---|---|
| Anodwch y gwaith | • Dilynwch y canllawiau yn y fanyleb berthnasol a'r dogfennau pwnc-benodol cysylltiedig.<br>• Darparwch dystiolaeth i gefnogi'r marciau. Nodwch y meini prawf asesu sydd wedi'u bodloni.<br>• Byddwch yn glir ac yn ddiamwys.<br>• Defnyddiwch ymadroddion allweddol o'r meini prawf. Er enghraifft, ymwybyddiaeth o werthoedd, defnyddio amrywiaeth o dechnegau, dethol data priodol.<br>• Rhowch anodiadau ar bwyntiau priodol o'r gwaith – yn yr ymyl neu yn y testun – neu ysgrifennwch sylwadau ar y daflen glawr er mwyn dangos yn eglur sut cafodd marciau eu dyfarnu. |
| Dyfarnu marciau | • Os gwnaethpwyd rhywfaint o waith mewn grwpiau, dyfarnwch farciau sy'n adlewyrchu cyfraniad pob ymgeisydd unigol.<br>• Os yw'r ymgeisydd wedi cael adborth ac arweiniad y tu hwnt i'r hyn a ganiateir gan y fanyleb, mae'n rhaid ystyried hynny. Dylech ddefnyddio'r egwyddor ffit orau ac anodi i esbonio sut cymhwyswyd marciau yng nghyd-destun y cymorth ychwanegol a roddwyd gan nodi'r manylion. |
| Cwblhewch y dogfennau | • Cofnodwch yr adborth a'r arweiniad sydd wedi'u rhoi.<br>• Mewnbynnwch farciau yn ôl cyfarwyddyd y corff dyfarnu perthnasol. |

**Beth yw’r weithdrefn gywir os yw ymgeisydd yn cyflwyno dim ond ychydig o waith neu ddim yn cyflwyno unrhyw waith o gwbl?**

| | |
|---|---|
| Nid yw'r ymgeisydd yn cyflwyno unrhyw waith | **Rhaid** cofnodi bod yr ymgeisydd yn absennol pan gyflwynir marciau i'r corff dyfarnu ac **ni** ddylid rhoi marc **'0'** (sero) i'r ymgeisydd hwnnw. |
| Dim ond ychydig iawn o waith y mae’r ymgeisydd yn ei gyflwyno | Os oes rhywfaint o waith wedi’i gynhyrchu, **rhaid** asesu’r gwaith yn erbyn y meini prawf asesu. **Rhaid** dyfarnu’r marc priodol. Os nad yw’r ychydig waith a gyflwynir yn haeddu credyd, **rhaid** rhoi marc '**0**' (sero). |

**A oes angen i'r ganolfan ddweud wrth ymgeiswyr beth yw marciau eu hasesiad?**

**Oes. Rhaid** i'r ganolfan hysbysu ymgeiswyr o'u marciau a asesir gan y ganolfan oherwydd bod gan ymgeisydd hawl i ofyn am adolygiad o farcio'r ganolfan **cyn** y cyflwynir marciau i'r corff dyfarnu.

**Beth yw'r weithdrefn gywir ar gyfer ymgeisydd sy'n gwneud cais am adolygiad o farcio'r ganolfan?**

**Rhaid** cynnal unrhyw adolygiad **cyn** y cyflwynir marciau i'r corff dyfarnu.
Rhaid dynodi digon o amser i ymgeiswyr fel y gallant adolygu copïau o ddeunydd, fel sy'n briodol, a dod i benderfyniad. **Rhaid** i'r ganolfan hefyd ganiatáu digon o amser i gynnal adolygiad o'r marcio, er mwyn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r marcio ac i roi gwybod i'r ymgeisydd o'r canlyniad **cyn** dyddiau cau y corff dyfarnu. Mae'n **rhaid** i'r adolygiad gael ei gynnal gan aseswr sydd â chymhwysedd priodol, sydd heb ymwneud ag asesu'r ymgeisydd yn y gydran dan sylw o gwbl yn flaenorol, a heb fudd personol o gwbl yng nghanlyniad yr adolygiad. **Rhaid** i'r adolygwr sicrhau bod marc yr ymgeisydd yn gyson â'r safon a osodir gan y ganolfan.

**Rhaid** i ganolfannau hefyd esbonio'n glir i ymgeiswyr y gallai'r marciau a asesir gan y ganolfan newid yn ystod y broses gymedroli.

**Rhaid** i ganolfannau roi gwybod i'r corff dyfarnu os nad ydyn nhw'n derbyn canlyniad adolygiad.

Lluniodd y cyrff dyfarnu gyfres o Gwestiynau Cyffredin sydd i'w gweld yn yr *Hysbysiad i Ganolfannau Hysbysu ymgeiswyr o'u marciau a aseswyd gan y ganolfan* yn:
https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_1

**Beth yw'r weithdrefn gywir i'w dilyn os oes gwrthdaro buddiannau rhwng yr athro/athrawes a'r ymgeisydd?**

**Rhaid** i ganolfannau wneud ymdrech i osgoi sefyllfaoedd lle mae ymgeisydd yn cael ei asesu gan rywun sydd â pherthynas bersonol agos â'r ymgeisydd. Er enghraifft, aelodau o'i deulu (sy'n cynnwys llys-deulu, teulu maeth a pherthnasoedd agos tebyg) neu ffrindiau agos a'u teulu agosaf (e.e. mab neu ferch).

Lle na ellir osgoi hyn, **rhaid** i’r ganolfan ddatgan gwrthdaro buddiannau posibl a chyflwyno’r gwaith sydd wedi’i farcio i’w gymedroli p’un ag yw’n rhan o’r sampl cymedroli ai peidio. Rhoddir manylion pellach yn adran 5 y ddogfen CGC *Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy*.

Mae'r ddogfen ar gael ar fformat PDF ar wefan y CGC:
https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

### 6.2 Safoni mewnol

Mae'n rhaid i athrawon nodi'r dyddiad pan farciwyd y gwaith ar waith ymgeiswyr, neu ar y daflen glawr.

Mae'n bwysig bod pob athro sy'n rhan o'r broses o asesu cydran yn marcio'n ôl yr un safonau. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod marciau ar draws aseswyr a grwpiau addysgu'n cael eu safoni'n fewnol. Mae'r drefn ganlynol yn enghraifft o ymarfer da.

**Dewch o hyd i ddeunyddiau cyfeirio yn gynnar iawn yn y cwrs**

- Ceisiwch gael gafael ar ddeunyddiau enghreifftiol a ddarperir gan y corff dyfarnu a defnyddiwch ddeunydd archif eich canolfan eich hun.

**Trefnwch sesiwn ragarweiniol o dreialu marcio cyn marcio**

- Dylid cynnwys pob athro sy'n rhan o'r broses asesu.
- Cymharwch safonau drwy drawsfarcio sampl bach o waith.
- Cytunwch ar ddealltwriaeth gyffredin o'r meini prawf asesu.

**Cynhaliwch ymarferion treialu marcio pellach ar gyfnodau priodol yn ystod y cyfnod marcio**

- Gwnewch yr ymarfer treialu marcio/trawsfarcio eto.
- Sicrhewch fod unrhyw wahaniaethau o ran marcio'n cael eu datrys.

**Ar ôl cwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith marcio**

- Trefnwch gyfarfod pellach i wneud addasiadau terfynol neu rhowch y cyfrifoldeb o gymharu marciau i'r athro sy'n gyfrifol am y safoni mewnol.

**Gwnewch addasiadau terfynol i'r marciau cyn eu cyflwyno**

- Os oes anghysondebau sicrhewch fod yr athro/athrawon dan sylw yn addasu'r marciau.
- Dylai'r athro sy'n gyfrifol am safoni mewnol wirio'r marciau newydd.

**Cadwch y gwaith a thystiolaeth o safoni**

- Cadwch dystiolaeth eich bod wedi safoni'r gwaith yn fewnol.
- Storiwch waith yr ymgeiswyr yn ddiogel tan ar ôl y terfyn amser ar gyfer adolygiadau o ganlyniadau y gyfres dan sylw neu tan y bydd unrhyw apêl, gamymddwyn neu unrhyw ymholiad arall am ganlyniadau wedi'i gwblhau, pa bynnag un sydd hwyraf (gweler adran 4.8).

### 6.3 Trefniadau consortiwm ar gyfer cydrannau asesiad di-arholiad a asesir gan y ganolfan

Grŵp o ganolfannau lle mae ymgeiswyr yn cael eu haddysgu a'u hasesu gyda'i gilydd yw consortiwm. Os yw'r ganolfan yn rhan o gonsortiwm dylech ddilyn y camau canlynol:

1 Enwebwch gydlynydd consortiwm a fydd yn cysylltu â'r corff dyfarnu ar ran yr holl ganolfannau.

2 Rhowch wybod i'r corff dyfarnu perthnasol fod y ganolfan yn rhan o gonsortiwm drwy gyflwyno
Ffurflen JCQ/CCA *Trefniadau consortiwm o ganolfannau ar gyfer gwaith a asesir yn y ganolfan*, gan ddefnyddio'r Porth Gweinyddu Canolfannau (CAP).

Gellir cael mynediad at y Porth Gweinyddu Canolfannau (CAP) gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu.

Cyflwynwch ffurflen ar wahân ar gyfer pob manyleb sy'n cael ei haddysgu a'i hasesu ar y cyd.

**Cyflwynwch gais newydd ar gyfer pob cyfres arholiadau**.

3 Cyflwynwch y ffurflen **erbyn dim hwyrach** na'r terfyn amser swyddogol.

4 Dilynwch y gweithdrefnau safoni mewnol a ddisgrifir yn adran 6.2 **fel consortiwm** h.y. dylid cynnwys pob athro sy'n rhan o'r broses asesu ym mhob canolfan yn y consortiwm.

5 Cyflwynwch farciau fel y nodir yn adran 6.4 y ddogfen hon.
Mae pob canolfan yn y consortiwm yn cyflwyno marciau ar gyfer eu hymgeiswyr eu hunain.

6 Cyflwynwch sampl unigol o waith i'w gymedroli fel yr amlinellir gan y corff dyfarnu.

Bydd y corff dyfarnu'n penodi'r un cymedrolwr i bob canolfan yn y consortiwm.

Os bydd angen newid marciau, bydd y newid hwn yn berthnasol ar draws y consortiwm.

7 Daliwch eich gafael ar waith yr ymgeiswyr i gyd o'r holl ganolfannau yn y consortiwm tan ar ôl y terfyn amser ar gyfer adolygiadau o ganlyniadau'r gyfres dan sylw neu nes bydd unrhyw apêl, gamymddwyn neu unrhyw ymholiad arall am ganlyniadau wedi ei gwblhau, pa bynnag un sydd hwyraf.

Os bydd y consortiwm yn gwneud cais am adolygiad o'r cymedroli, **rhaid** i waith pob canolfan fod ar gael, gan y bydd angen y sampl gwreiddiol i adolygu'r gwaith cymedroli.

Lle mae manyleb yn cael ei haddysgu mewn canolfan, ond bod rhai ymgeiswyr yn cael eu haddysgu a'u hasesu mewn canolfan arall, rhaid i'r ganolfan hysbysu'r corff dyfarnu o'r trefniant hwnnw.

### 6.4 Cyflwyno marciau a gwaith i'w gymedroli

1 Gosodwch derfynau amser mewnol a fydd yn galluogi'r ganolfan i gymhwyso unrhyw ymholiadau gan ymgeiswyr am adolygiadau o farcio ac i gyrraedd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno marciau a gwaith ymgeiswyr, fel y cyhoeddir gan y corff dyfarnu. Bydd hyn yn galluogi'r corff dyfarnu i fodloni'r terfyn amser ar gyfer cymedroli a rhyddhau canlyniadau. Gallai cyrff dyfarnu wrthod derbyn marciau a gwaith a gyflwynir ar ôl y terfyn amser.

2 Dilynwch gyfarwyddiadau'r corff dyfarnu ynglŷn â chyflwyno marciau. Fel arfer gwneir hyn yn electronig. **Cyfrifoldeb canolfannau yw gwirio'n ofalus y marciau maen nhw'n eu cyflwyno i gorff dyfarnu er mwyn sicrhau cyn lleied o wallau â phosibl. Rhaid i'r ganolfan wirio marciau'r ymgeiswyr i gyd, nid y sampl a gyflwynwyd yn unig, a gwneud yn siŵr nad oes gwallau adio na thrawsgrifio wedi digwydd cyn eu cyflwyno.**

3 Cyflwynwch ddogfennau ategol sy'n ofynnol gan y corff dyfarnu.

**A yw'n bosibl cael estyniad i'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno marciau?**

Lle mae amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth yn effeithio ar ganolfan, gallai fod yn bosibl cael estyniad byr mewn achosion eithriadol. Penderfyniad y corff dyfarnu fydd hynny.
Mae'n **rhaid** i'r ganolfan gysylltu â'r corff dyfarnu cyn gynted â phosibl i wneud cais am estyniad.

**Os na chedwir at derfynau amser ar gyfer cyflwyno marciau a samplau, gallai olygu na fydd canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar amser.**

**Gellid ystyried bod methiant i gadw at derfynau amser corff dyfarnu yn gamweinyddu a byddai archwiliad felly'n cael ei gynnal i hynny.**

### 6.5 Storio a chadw gwaith ar ôl cyflwyno marciau

| | |
|---|---|
| Sampl i'w gymedroli | • Cadwch gofnod o'r ymgeiswyr hynny (enwau a rhif ymgeiswyr) y cafodd eu gwaith ei gynnwys yn y sampl. Efallai y bydd angen y wybodaeth hon os cynhelir adolygiad o'r cymedroli.<br>• Mae cymedrolwyr fel arfer yn dychwelyd y gwaith yn uniongyrchol i'r canolfannau, ond ni ddychwelir gwaith a gyflwynir yn electronig. |

| | |
|---|---|
| Gwaith wedi'i farcio | • Daliwch eich gafael ar waith sydd wedi'i farcio dan amodau diogel tan ar ôl y terfyn amser ar gyfer adolygiad o'r cymedroli neu tan y bydd unrhyw apêl, ymholiad camymddwyn neu ymholiad arall am ganlyniadau wedi ei gwblhau, pa bynnag un sydd hwyraf. Mae hyn yn berthnasol i bob darn o waith – p'un ag oedd yn rhan o'r sampl i'w gymedroli ai peidio.<br>• **Rhaid** gwneud copi wrth gefn o waith ymgeiswyr yn rheolaidd a'i gadw'n ddiogel ar system TG y ganolfan. Dylai canolfannau ystyried y drefn wrth gefn bod copi wrth gefn yn cael ei wneud o waith ymgeiswyr ar ddwy ddyfais wahanol, gan gynnwys un copi wrth gefn oddi ar y safle. **Rhaid** i'r ganolfan roi trefniadau diogelwch gwybodaeth priodol ar waith (bydd hyn yn cynnwys amddiffyn yn erbyn llygredd a seiberymosodiad)<br>• Os yw cadw'r gwaith yn broblem oherwydd natur y gwaith, cadwch ryw fath o dystiolaeth megis lluniau, recordiadau sain neu recordiadau o'r cyfryngau. |

| | |
|---|---|
| Dyfyniadau a gwaith enghreifftiol | • Bydd cyrff dyfarnu yn cadw gwaith rhai ymgeiswyr at bwrpasau archifo a safoni.<br>• Gweler paragraffau 6.12 i 6.14 dogfen y CGC *Cyfarwyddiadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy* am wybodaeth am hawlfraint. Mae'r ddogfen ar gael ar fformat PDF ar wefan y CGC: https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0 |

### 6.6 Cymedroli allanol – y broses

Pwrpas cymedroli yw sicrhau bod safon y marcio’n gyson ar draws pob canolfan.

| | |
|---|---|
| Dethol y sampl | • Mae’r corff dyfarnu (neu’r cymedrolwr sy’n gweithredu ar ei ran) yn nodi’r sampl a fydd yn cynnwys gwaith o’r ystod cyrhaeddiad cyfan yn y ganolfan.<br><br>**Cyfrifoldeb canolfannau yw sicrhau bod y cymedrolwyr yn derbyn y samplau gwaith cywir i'w hadolygu.** |
| Cyflwyno’r sampl | • Ar gyfer y rhan fwyaf o gydrannau, mae’r ganolfan yn anfon sampl gwaith naill ai’n syth at y cymedrolwr neu’n uniongyrchol at y corff dyfarnu, yn unol â chyfarwyddiadau.<br><br>• Ar gyfer rhai cydrannau mae’r cymedrolwr yn ymweld â'r ganolfan i farcio’r sampl gwaith. |
| Asesiad enghreifftiol | • Mae’r cymedrolwr yn asesu’r gwaith yn y sampl gan ddefnyddio’r meini prawf marcio cyhoeddedig a gan gyfeirio at farciau a sylwadau'r ganolfan. |
| Cymharu a newid marciau | • Mae marciau’r cymedrolwyr ar gyfer y sampl o waith yn cael eu cymharu â marciau’r ganolfan.<br><br>• Os bydd angen tystiolaeth bellach ar y cymedrolwr o farcio’r ganolfan gallai wneud cais am rywfaint o’r gwaith sy’n weddill neu’r gwaith i gyd.<br><br>• Os bydd y gwahaniaeth rhwng marciau’r cymedrolwr a marciau’r ganolfan yn mynd y tu hwnt i’r goddefiant a ganiateir, ond bod y cymedrolwr yn cytuno ar y cyfan â threfn restrol y ganolfan, efallai y bydd marciau’r ganolfan yn cael eu newid.<br><br>• Os bydd y cymedrolwr yn anghytuno’n sylweddol â threfn restrol y ganolfan (efallai oherwydd na chafodd y weithdrefn safoni mewnol ei gweithredu’n effeithiol) gallai’r corff dyfarnu ofyn i’r ganolfan ailystyried ei marciau. Fel arall, gallai marciau’r cymedrolwr gael eu defnyddio ar gyfer pob ymgeisydd yn y ganolfan ac, mewn rhai amgylchiadau, gallai’r corff dyfarnu godi tâl. |
| Adborth i ganolfannau | • Bydd y marciau terfynol wedi’u cymedroli yn cael eu hanfon i’r canolfannau’n electronig pan gyhoeddir y canlyniadau.<br><br>• Bydd ffurflenni adborth yn cael eu hanfon hefyd. |

## 6.7 Cymedroli allanol – adborth

**Pa fath o adborth y gall canolfannau ei ddisgwyl?**

Mae adborth yn galluogi canolfannau i gymryd camau adfer, os bydd eu hangen, cyn y gyfres nesaf o arholiadau. Y nod yw rhoi adborth adeiladol, gwrthrychol, wedi'i gefnogi gan ffeithiau neu farn, a digon o fanylder i esbonio unrhyw wahaniaethau rhwng asesiadau'r ganolfan a'r safon y cytunwyd arni ar gyfer y gydran.

Bydd adborth yn ymdrin â'r agweddau canlynol:

| | |
|---|---|
| Tasgau a osodwyd gan y ganolfan | • A oeddent yn briodol i gynnwys y fanyleb?<br>• A oedd y tasgau'n ymdrin yn ddigonol â'r amcan(ion) asesu? |
| Ymatebion ymgeiswyr i friffiau corff dyfarnu | • A oedd ymatebion ymgeiswyr yn briodol i gynnwys y fanyleb a'r briff ei hun? |
| Asesiadau'r ganolfan | • A gafodd ymgeiswyr eu hasesu'n gywir yn erbyn y meini prawf marcio ac mewn perthynas â'r safon y cytunwyd arni ar gyfer y gydran?<br>• Os oedd anghywirdebau **sylweddol** yn y marcio, bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at ble yn yr ystod marciau y canfuwyd yr anghywirdebau ac a oedd yr asesiad yn rhy llym neu'n rhy hael.<br>• Bydd yr adroddiad yn esbonio'r rhesymau pam roedd y marcio'n anghywir gan ddefnyddio'r Amcanion Asesu a'r meini prawf marcio. |
| Gweinyddiaeth y ganolfan | • A gafodd yr asesiadau eu cynnal yn unol â gofynion y fanyleb?<br>• A gafodd yr asesiadau eu cyflwyno yn unol â gofynion y fanyleb?<br>• A gafodd yr asesiadau eu cyflwyno ar amser? |

**Nid** yw adroddiadau'n gwneud sylwadau am ansawdd y gwaith ei hun **nac** yn cynnwys barn bersonol y cymedrolwr.

## 7 Trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol

Mae gwybodaeth fanwl i'w chael yn nogfen y CGC *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol, 1 Medi 2025 hyd at 31 Awst 2026*. Mae'r ddogfen ar gael ar fformat PDF ar wefan y CGC: https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

Mae cyrff dyfarnu wedi datblygu eu manylebau i gydymffurfio â deddfwriaeth yn ymwneud â chydraddoldeb.

Mewn egwyddor, os yw trefniant mynediad yn rhan o ffordd arferol ymgeisydd o weithio yn y ganolfan ac mae'n bodloni'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer y trefniant, fel arfer bydd yn cael ei ganiatáu ar gyfer arholiadau ysgrifenedig ac asesiadau di-arholiad. **Rhaid i ganolfannau wneud ceisiadau ar-lein am drefniadau mynediad cyn arholiadau ysgrifenedig ac asesiadau di-arholiad sydd wedi'u hamserlennu.**

Mae gwybodaeth am wneud cais am drefniadau mynediad ar gyfer Arnodiad Sgiliau Ymarferol manyleb TAG
Safon Uwch Bioleg, Cemeg, Daeareg a/neu Ffiseg i'w chael ar:
https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

**Sut gall canolfannau baratoi eu hunain i ddarparu ar gyfer ymgeiswyr sydd â threfniadau mynediad?**

**Rhaid** i'r Cydlynydd Anghenion Arbennig sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn ymwybodol o'r ymgeiswyr hynny a fydd angen trefniadau mynediad wrth gwblhau asesiadau di-arholiad.

## 8 Ystyriaeth arbennig a cholli gwaith

Mae dogfen y CGC *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig* yn rhoi gwybodaeth fanwl.
Mae'r ddogfen ar gael ar fformat PDF ar wefan y CGC:
https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

### 8.1 Absenoldeb

**A fydd ymgeiswyr sy'n absennol yn gymwys am ystyriaeth arbennig?**

| | | |
|---|---|---|
| **Absenoldeb tymor byr achlysurol** | • Roedd yr ymgeisydd yn absennol am resymau annisgwyl ar gyfer un neu fwy o'r sesiynau goruchwyliaeth ffurfiol. | **Nid yw'n gymwys** am ystyriaeth arbennig.<br><br>Dylai'r ymgeisydd gael cyfle i gael yr amser a gollwyd yn ôl. |
| **Absenoldeb ar ddiwrnod ymweliad arholwr allanol** | • Roedd yr ymgeisydd yn absennol am reswm derbyniol ar ddiwrnod ymweliad arholwr allanol. | **Gall fod yn gymwys** am ystyriaeth arbennig.<br><br>**Rhaid** ceisio cyngor gan y corff dyfarnu ar adeg absenoldeb yr ymgeisydd ynglŷn â threfniadau asesu eraill posibl. |
| **Wedi ymuno â'r cwrs ar gyfnod diweddarach (Gweler adran 11 ar gyfer ymgeiswyr sy'n symud o un ganolfan i ganolfan arall)** | • Roedd yr ymgeisydd yn absennol am rywfaint o'r sesiynau goruchwyliaeth ffurfiol oherwydd iddo ymuno â'r cwrs ar gyfnod diweddarach. | **Nid yw'n gymwys** am ystyriaeth arbennig.<br><br>Dylai'r ymgeisydd gael y cyfle i gael yr amser a gollwyd yn ôl, os yw'n bosibl. |
| **Absenoldeb tymor hirach pan fo gwaith yn cael ei gyflwyno mewn cyfres cyn ardystio**<br><br>**(ddim yn berthnasol i fanylebau llinol)** | • Roedd yr ymgeisydd yn absennol am resymau derbyniol pan gyflawnodd ei gyfoedion yr asesiad.<br>• Bydd cyfle arall i'r ymgeisydd gael ei asesu cyn y gyfres y bydd yn cael ei ardystio ynddi. | **Nid yw'n gymwys** am ystyriaeth arbennig.<br><br>Dylai'r ymgeisydd gyflwyno'r asesiad mewn cyfres arholiadau ddilynol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Absenoldeb tymor hirach pan fo'r gwaith yn cael ei gyflwyno yn y gyfres ardystio** | • Roedd yr ymgeisydd yn absennol am resymau derbyniol pan gyflawnodd ei gyfoedion yr asesiad ac nid oedd yn gallu cwblhau'r gwaith yn ddiweddarach.<br>• Gan mai dyma gyfres ardystio'r ymgeisydd ni fydd cyfle arall i gwblhau'r gwaith sydd i'w asesu. | **Gall fod yn gymwys** am ystyriaeth arbennig ar yr amod y caiff y meini prawf cyhoeddedig eu bodloni. |

**Beth yw'r meini prawf i ymgeisydd sydd wedi bod yn absennol i fod yn gymwys am ystyriaeth arbennig?**

- Mae'r ymgeisydd wedi astudio'r cwrs cyfan ac wedi paratoi'n llawn ar gyfer yr asesiad perthnasol.
- Nid oedd yr ymgeisydd yn gallu cwblhau'r asesiad perthnasol **yn ystod y gyfres ardystio** ar yr un pryd â'i gyfoedion am reswm derbyniol, h.y. anaf, afiechyd neu anhwylder dros dro arall (lle roedd yr asesiad wedi'i drefnu am gyfnod cyfyngedig o amser).
- Mae'r ganolfan wedi cymryd pob cam rhesymol i geisio sicrhau bod modd i'r ymgeisydd gwblhau'r asesiad, gan gynnwys rhoi ystyriaeth i gael estyniad byr.
- Mae'r ganolfan yn gallu nodi'r rhesymau yn glir pam nad oedd yn bosibl cwblhau'r asesiad yn y gyfres ardystio drwy gytuno ar estyniad.
- Mae'r ganolfan yn bodloni'r meini prawf cyhoeddedig ar gyfer graddio uwch.
- Mae'r ganolfan yn cefnogi'r cais am ystyriaeth arbennig.

**A oes unrhyw amgylchiadau lle byddai'r corff dyfarnu yn derbyn darn o waith sy'n llai o faint na'r hyn sy'n ofynnol?**

Oes, cyhyd â bod **pob un** o'r meini prawf canlynol wedi'u bodloni:

- Mae'r fanyleb yn ei gwneud yn ofynnol i gwblhau mwy nag un darn o waith.
- Mae pob darn o waith yn cael ei asesu yn erbyn yr un meini prawf.
- Mae'r ymgeisydd wedi cwblhau o leiaf un darn o waith ac wedi ymdrin â'r holl amcanion asesu angenrheidiol o leiaf unwaith.

## 8.2 Colli gwaith

**Beth yw'r meini prawf i ymgeisydd y mae ei waith ar goll i fod yn gymwys am addasiad?**

| | | |
|---|---|---|
| **Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am golli'r gwaith** | • Mae'r gwaith wedi'i golli oherwydd esgeuluster ar ran yr ymgeisydd. | **Nid yw'n gymwys** am unrhyw addasiad. |
| **Y ganolfan sy'n gyfrifol am golli'r gwaith** | • Nid esgeuluster ar ran yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am golli'r gwaith.<br>• Mae'r ganolfan yn gallu dilysu bod y gwaith wedi'i gwblhau neu wedi'i gwblhau'n rhannol a'i fod wedi cael ei fonitro wrth i'r ymgeisydd weithio arno. | **Gall fod yn gymwys** am addasiad. |

**Beth yw'r weithdrefn i ymgeisydd y mae ei waith ar goll i wneud cais am addasiad?**

Mae Ffurflen 15 – JCQ/LCW yn rhan o'r pdf wedi'i labelu Ffurflen 15 – Hysbysiad o Waith Ar Goll sydd wedi'i Asesu gan Ganolfannau, a gellir ei lawrlwytho yma: [https://www.jcq.org.uk/exams-office/non-examination-assessments](https://www.jcq.org.uk/exams-office/non-examination-assessments)

| | |
|---|---|
| Rhowch wybod am y gwaith sydd ar goll | Cyflwynwch Ffurflen 15 – JCQ/LCW i'r corff dyfarnu perthnasol:<br><br>**Ni ddylai** canolfannau AQA ac OCR gyflwyno Ffurflen 15 – JCQ/LCW.<br>**Rhaid** cyflwyno ceisiadau ar-lein gan ddefnyddio AQA Centre Services neu OCR Interchange fel y bo'n briodol. |
| Os cafodd y gwaith ei farcio cyn iddo gael ei golli neu ei ddifrodi | Cyflwynwch y marc yn y ffordd arferol.<br><br>Cyflwynwch Ffurflen 15 – JCQ/LCW i'r cymedrolwr a'r corff dyfarnu erbyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno marciau.<br><br>**Ni ddylai** canolfannau AQA ac OCR gyflwyno Ffurflen 15 – JCQ/LCW.<br>**Rhaid** cyflwyno ceisiadau ar-lein gan ddefnyddio AQA Centre Services neu OCR Interchange fel y bo'n briodol. |

| | |
|---|---|
| Os **nad** oedd y gwaith wedi'i farcio cyn iddo gael ei golli neu ei ddifrodi | Cyflwynwch farc wedi'i amcangyfrif ar Ffurflen 15 – JCQ/LCW i'w ystyried gan y corff dyfarnu.<br>Seiliwch y marc hwn ar asesiad yr athro o'r gwaith a welwyd.<br><br>**Ni ddylid** cyflwyno amcangyfrifon ar daflenni marciau, dim ond ar Ffurflen 15 – JCQ/LCW y dylid gwneud hynny.<br><br>**Peidiwch** â cheisio amcangyfrif marciau am waith nad ydych wedi'i weld.<br><br>**Ni dderbynnir** unrhyw amcangyfrif o farciau ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi fel arfer.<br><br>**Ni ddylai** canolfannau AQA ac OCR gyflwyno Ffurflen 15 – JCQ/LCW.<br>**Rhaid** cyflwyno ceisiadau ar-lein gan ddefnyddio AQA Centre Services neu OCR Interchange fel y bo'n briodol. |

| | |
|---|---|
| Os mai dim ond rhan o'r gwaith sydd ar goll | Ewch at y corff dyfarnu am arweiniad pellach. |

## 9 Camymddwyn

Er mwyn atal camymddwyn gan ymgeiswyr a chanolfannau, **rhaid** i athrawon ymgyfarwyddo â dogfen y CGC *Hysbysiad i Ganolfannau – Rhannu deunydd asesu di-arholiad a gwaith ymgeiswyr*: https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

I gael canllawiau manwl ar ymdrin ag achosion o gamymddwyn posibl, dylai canolfannau gyfeirio at ddogfen y CGC *Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau:* https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

**Ni ddylai** ymgeiswyr wneud y canlynol:

- cyflwyno gwaith lle nad eu gwaith nhw ydyw;
- darparu eu gwaith ar gyfer ymgeiswyr eraill drwy unrhyw fodd;
- caniatáu i ymgeiswyr eraill ddefnyddio'r ffynonellau maent wedi dod o hyd iddynt yn annibynnol;
- cynorthwyo ymgeiswyr eraill i gynhyrchu gwaith;
- defnyddio llyfrau, y rhyngrwyd neu ffynonellau eraill heb gydnabod neu briodoli'r ffynonellau;
- cyflwyno gwaith y mae rhywun arall wedi prosesu'r geiriau, heb gydnabyddiaeth;
- cynnwys deunydd amhriodol, anweddus neu sarhaus.

**Ni waherddir** ymgeiswyr rhag benthyg llyfrau neu adnoddau eraill i'r naill a'r llall, cyhyd â nad yw'r rhain yn cael eu defnyddio fel rhan o'r deunydd maent wedi'i ganfod yn annibynnol.

**Ni ddylai** ymgeiswyr roi cyhoeddusrwydd i'w gwaith, e.e. drwy ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol. **Rhaid** iddynt fod yn ymwybodol o ddogfen y CGC *Gwybodaeth i ymgeiswyr – Cyfryngau Cymdeithasol*: https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_1

**Rhaid** i benaethiaid canolfannau ac uwch arweinwyr sicrhau bod yr aelodau o staff addysgu sy'n ymwneud â goruchwylio'r ymgeiswyr sy'n cynhyrchu gwaith i'w asesu yn uniongyrchol yn ymwybodol o'r potensial am gamymddwyn.

**Rhaid atgoffa staff addysgu bod methu â rhoi gwybod am gyhuddiadau o gamymddwyn neu amheuon o gamymddwyn yn cael ei ystyried yn gamymddwyn ynddo'i hun.**

**Rhaid** i staff addysgu:

- fod yn wyliadwrus o ran camymddwyn ymgeiswyr a bod yn hollol ymwybodol o'r rheoliadau swyddogol;
- codi a rhoi gwybod am unrhyw amheuaeth, gyhuddiad neu ddigwyddiad o gamymddwyn wrth y tîm uwch arweinyddiaeth neu'n uniongyrchol i'r corff dyfarnu.

## Beth ddylai canolfan ei wneud os yw'n amau camymddwyn?

| | |
|---|---|
| **Anghysondebau a nodir gan y ganolfan cyn i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu (lle bo'n angenrheidiol)** | • Dylai'r ganolfan ymdrin â'r anghysondeb yn unol â'i gweithdrefnau mewnol ei hun.<br>• Nid oes angen rhoi gwybod i'r corff dyfarnu am yr anghysondeb hwn. Yr unig eithriadau i achosion fel hyn yw pan mae'r drosedd yn ymwneud â thorri amodau'r asesiad, e.e. bod â nodiadau yn eu meddiant, cyfathrebu ag ymgeiswyr eraill, neu lle torrwyd cyfrinachedd deunydd asesu'r corff dyfarnu. Mewn achos o'r fath, **rhaid** rhoi gwybod i'r corff dyfarnu am yr amheuaeth o gamymddwyn.<br>• **Rhaid** cofnodi manylion unrhyw waith nad yw'n waith yr ymgeisydd ei hun ar y ffurflen gofnodi. |

| | |
|---|---|
| **Anghysondebau a nodir gan y ganolfan ar ôl i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu (lle bo'n angenrheidiol)** | • **Rhaid i bennaeth y ganolfan roi gwybod i'r corff dyfarnu perthnasol cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio Ffurflen JCQ/M1**: http://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice<br>• Os bydd camymddwyn yn cael ei ganfod, bydd y corff dyfarnu yn pennu sancsiwn. |

| | |
|---|---|
| **Anghysondebau a nodir gan arholwr neu gymedrolwr ar ôl i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu (lle bo'n angenrheidiol)** | • Bydd y corff dyfarnu yn gofyn i bennaeth y ganolfan gynnal ymchwiliad llawn ac yn gofyn iddo adrodd yn ôl am ei ganfyddiadau. |

## Pa sancsiwn fydd yn cael ei roi pan fydd ymgeisydd yn camymddwyn?

Os bydd achos o dorri'r rheoliadau yn dod i'r amlwg ar ôl i ymgeisydd lofnodi'r ddogfen ddilysu, yna gall y corff dyfarnu benderfynu ar un o'r sancsiynau canlynol:

- bydd y darn o waith yn cael marc '**0**' (sero);
- bydd yr ymgeisydd yn cael ei ddiarddel o'r gydran ar gyfer y gyfres arholiadau honno;
- bydd yr ymgeisydd yn cael ei ddiarddel o'r pwnc cyfan ar gyfer y gyfres arholiadau honno;
- bydd yr ymgeisydd yn cael ei ddiarddel o bob pwnc ac yn cael ei rwystro rhag ailgofrestru am gyfnod o amser.

## 10 Gwasanaethau ar ôl y canlyniadau

I gael gwybodaeth fanwl am wasanaethau ar ôl y canlyniadau dylai canolfannau gyfeirio at ddogfen y CGC *Gwasanaethau ar ôl y canlyniadau: Gwybodaeth a chanllawiau i ganolfannau*: https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

Gallwch wneud cais am y gwasanaethau ar ôl y canlyniadau canlynol.

| | |
|---|---|
| **Cydrannau sy'n cael eu hasesu'n allanol** | Adolygiad o'r marcio (Gwasanaeth 2)<br><br>Adolygiad blaenoriaethol o'r marcio (Gwasanaeth Blaenoriaethol 2) |

| | |
|---|---|
| **Cydrannau sy'n cael eu hasesu'n fewnol** | Adolygiad o'r cymedroli (Gwasanaeth 3)<br><br>**Nid** yw'r gwasanaeth hwn ar gael os na chafodd marciau'r ganolfan eu newid o ganlyniad i'r cymedroli gwreiddiol.<br><br>**Ni all ymgeisydd unigol gael adolygiad o'r cymedroli**. |

**Pa weithdrefn y dylid ei dilyn i wneud cais am adolygiad o'r cymedroli?**

| | |
|---|---|
| **Agor adolygiad o'r cymedroli** | • Cyflwyno cais am Wasanaeth 3 – Adolygiad o'r cymedroli.<br>• Bydd y corff dyfarnu'n rhoi'r manylion am ble i anfon y sampl lle bo'n berthnasol. |
| **Dosbarthu'r sampl cymedroli** | • **Rhaid** anfon y sampl cymedroli gwreiddiol i gael ei adolygu.<br>• Lle gwneir cais am hynny, **rhaid** dosbarthu'r sampl o fewn tri diwrnod gwaith ar ôl cael cadarnhad gan y corff dyfarnu bod y cais wedi'i dderbyn. |
| **Derbyn canlyniad yr adolygiad** | • Bydd canolfannau'n cael eu hysbysu o'r canlyniad.<br>• Bydd adborth yn cael ei roi fel arfer. |

## Pam mae angen cyflwyno'r sampl cymedroli gwreiddiol?

Mae'r broses hon yn adolygu'r cymedroli gwreiddiol er mwyn sicrhau bod y meini prawf asesu wedi'u cymhwyso'n deg, yn ddibynadwy ac yn gyson. **Nid ailgymedroli gwaith yr ymgeiswyr yw hyn**.

Bydd y corff dyfarnu wedi hyfforddi ei adolygwyr i gynnal adolygiadau o'r cymedroli yn gywir ac yn gyson.

**Rhaid** i'r sampl gwaith a gyflwynir i'w adolygu fod wedi'i storio'n ddiogel. Os oes tystiolaeth bod gwaith wedi'i ddychwelyd i ymgeiswyr, bydd yr adolygiad yn cael ei ganslo.

## Beth fydd yn digwydd os bydd y ganolfan yn methu â dosbarthu'r sampl o fewn tri diwrnod gwaith?

Gall fod oedi i ganlyniad yr adolygiad neu efallai y bydd yn cael ei ganslo.

## 11 Materion eraill

**Beth sy'n digwydd os bydd yn dod i'r amlwg ar ôl cyflwyno'r gwaith bod y dasg anghywir wedi ei rhoi i ymgeiswyr?**

**Rhaid** i'r ganolfan wneud cais am ystyriaeth arbennig. Mae cyrff dyfarnu'n gwneud popeth o fewn eu gallu i ddiogelu buddiannau ymgeiswyr ond mewn rhai achosion efallai na fydd yn bosibl derbyn gwaith yn seiliedig ar y dasg anghywir. **Rhaid i ganolfannau felly gymryd gofal mawr i sicrhau eu bod yn rhoi'r dasg gywir i ymgeiswyr ar gyfer y flwyddyn y cyflwynir y gwaith**. Gweler adran 3 am ragor o wybodaeth.

**A all disgyblion sydd wedi'u gwahardd, rhai sy'n dysgu o bell (gweler Atodiad 3), ymgeiswyr preifat a'r rheini nad ydynt yn mynychu canolfan am unrhyw reswm gwblhau asesiadau di-arholiad?**

Dylai canolfannau gyfeirio at y fanyleb berthnasol a/neu ganllawiau pwnc-benodol i ddechrau. Lle mae'r fanyleb ar gael i'r rheini y tu allan i addysg brif-ffrwd, **rhaid** i'r ganolfan sy'n gwneud y cofrestriad neu gofrestriadau drefnu goruchwyliaeth, dilysu a marcio fel sy'n angenrheidiol.

**A oes modd trosglwyddo marc asesiad di-arholiad pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster?**

**Oes.** Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster sy'n cynnwys asesiad di-arholiad, gallai drosglwyddo'r marc (neu ailddefnyddio'r marc) ar gyfer y gydran asesiad di-arholiad. (Yn achos asesu mewnol, y marc terfynol ar ôl cymedroli fydd hwn.) Rhaid defnyddio dangosydd ymgeisydd unigryw (UCI) gwreiddiol yr ymgeisydd.

Fodd bynnag, lle bo asesiad di-arholiad yn ffurfio'r cymhwyster cyfan, **rhaid** i'r ymgeisydd ail-wneud o leiaf un gydran.

Yn ystod oes y fanyleb, nid oes unrhyw gyfyngiad ar yr amser rhwng yr ymgais wreiddiol a'r ailsefyll, nac ar nifer y troeon y gellir trosglwyddo marc.

Os oes gan ymgeisydd ddau farc neu fwy o asesiadau di-arholiad blaenorol, bydd y marc mwyaf diweddar yn cael ei ddefnyddio, hyd yn oed os yw hwn yn farc is.

Os yw ymgeisydd yn ailsefyll yn hytrach na throsglwyddo asesiad di-arholiad, bydd y marc newydd yn cael ei ddefnyddio hyd yn oed os yw hwnnw'n farc is.

Gellir trosglwyddo marc dim ond lle mae gradd, gan gynnwys Annosbarthedig, wedi cael ei dyfarnu ar gyfer y cymhwyster.

**Rhaid** ailgofrestru ymgeisydd sydd am drosglwyddo marc ar gyfer y gydran Siarad mewn manyleb TGAU ITM ar yr un haen.

Ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cofrestru ar gyfer manylebau unedol CBAC, dylai'r ganolfan gysylltu â CBAC am gyngor.

## A yw'n bosibl gwella ac ailgyflwyno gwaith di-arholiad pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster?

**Ydy**, oni waherddir hynny'n benodol gan fanyleb y corff dyfarnu neu lle mae'r corff dyfarnu'n gosod tasg sy'n newid bob blwyddyn. Fel y nodwyd uchod, bydd y marc newydd yn cael ei ddefnyddio, hyd yn oed os yw'n is na'r marc blaenorol.

Os oes mwy nag un dasg, **rhaid** cyflwyno'r holl dasgau i'w hasesu a/neu eu cymedroli, hyd yn oed os nad yw'r ymgeisydd wedi gwneud unrhyw waith pellach arnyn nhw. Lle caiff gwaith ei asesu neu ei gymedroli'n fyw, **rhaid** ailadrodd pob tasg. Nid yw hyn yn gymwys os cynhelir asesiadau neu gymedroli o recordiadau, heblaw yng nghydran Siarad TGAU a TAG Ieithoedd Tramor Modern, lle mae'n **rhaid** ailadrodd y prawf Siarad cyfan.

**Rhaid** i ganolfannau fod yn ymwybodol o'r angen i ddilysu gwaith ymgeiswyr, fel y manylir yn adran 4.6. **Rhaid** iddynt sicrhau bod unrhyw gymorth ychwanegol yn cael ei gofnodi a'i ystyried wrth farcio'r gwaith (neu ei gyflwyno i'r arholwr allanol) yn y ffordd arferol, fel y manylir yn adran 4.2. Fodd bynnag, **nid oes** angen ystyried gwybodaeth yr ymgeisydd am y dadansoddiad blaenorol o'r marciau yn gymorth ychwanegol.

## Beth sy'n digwydd os bydd ymgeisydd yn symud i ganolfan arall yn ystod y cwrs?

Gallai fod yn bosibl helpu ymgeiswyr sy'n symud i ganolfan arall yn ystod y cwrs. Mae datrysiadau posibl yn dibynnu ar ba adeg o'r broses y mae'r ymgeisydd yn symud. Dylid cysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol cyn gynted â phosibl i gael cyngor am achosion unigol.

**Atodiad 1**

# Arnodiad Sgiliau Ymarferol ar gyfer Safon Uwch y Gwyddorau a ddyluniwyd i'w ddefnyddio yn Lloegr

## Cyflwyniad

Mae asesu sgiliau ymarferol yn ofyniad gorfodol ar gyfer y cymwysterau Safon Uwch Bioleg, Cemeg, Daeareg a Ffiseg. Bydd gan bob un o'r cymwysterau hyn gydran arnodedig sy'n ymdrin â'r sgiliau hynny.

Mae gan yr arnodiad hwn nifer o nodweddion sy'n ei osod ar wahân i'r rhan fwyaf o gydrannau cymwysterau cyffredinol, yn benodol:

- **ni fydd** yn cyfrannu at y radd Safon Uwch;
- ni fydd unrhyw farciau'n cael eu neilltuo – bydd yn cael ei asesu'n gyfannol ac yn cael ei gofnodi fel 'Llwyddo' neu 'Annosbarthedig';
- caiff ei asesu ar sail 'cymhwysedd' gan ddefnyddio Meini Prawf Asesu Ymarferol Cyffredin (CPAC). I 'Lwyddo' ar ddiwedd y cwrs **rhaid** i ymgeiswyr fodloni'r holl feini prawf yn gyson a rheolaidd;
- bydd ymweliad monitro i bob canolfan fydd yn gwirio bod athrawon yn rhoi gofynion yr arnodiad ymarferol ar waith yn briodol ac yn defnyddio'r meini prawf asesu yn gywir.

Mae gofyn i'r athrawon arweiniol newydd gymryd rhan mewn hyfforddiant a ddarperir gan y corff dyfarnu ar roi'r arnodiad ymarferol ar waith. Rhoddir manylion pellach gan y corff dyfarnu.

**Rhaid** i athrawon arweiniol sicrhau bod yr holl athrawon eraill yn y pwnc hwnnw yn y ganolfan yn gallu cymhwyso'r safonau'n briodol.

Nid oes asesiad ar wahân ar gyfer sgiliau ymarferol cymwysterau UG Bioleg, Cemeg, Daeareg neu Ffiseg.

## Cofrestriadau a datganiad canolfan

Mae cofrestriadau Safon Uwch Bioleg, Cemeg, Daeareg a Ffiseg yn cynnwys yr arnodiad sgiliau ymarferol perthnasol yn awtomatig.

Cyhoeddir tystysgrif ar gyfer Safon Uwch Bioleg, Cemeg, Daeareg a/neu Ffiseg lle dyfernir gradd (A* i E) i ymgeisydd. Bydd canlyniad yr arnodiad, gan gynnwys 'Annosbarthedig', yn cael ei nodi ar y dystysgrif honno.

**Rhaid** i bennaeth y ganolfan lofnodi datganiad yn cadarnhau bod yr holl gamau rhesymol wedi'u cymryd, neu y byddan nhw'n cael eu cymryd, i sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn y ganolfan wedi cael, neu y byddan nhw'n cael, y cyfle i ymgymryd â'r gweithgareddau ymarferol rhagnodedig.

Lle mae canolfan yn bwriadu cofrestru ymgeiswyr am y tro cyntaf ar gyfer un neu fwy o bynciau Safon Uwch, fel y nodir uchod, **rhaid** cysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol ar ddechrau'r cwrs.

## Gweithgareddau ymarferol

Mae'r trefniadau ar gyfer asesu sgiliau ymarferol Safon Uwch Bioleg, Cemeg, Daeareg a Ffiseg yn gyffredin i'r holl gyrff dyfarnu ac yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r gweithgareddau ymarferol gofynnol (a fydd yn caniatáu i ymgeiswyr ddangos y pum cymhwysedd ymarferol) yn cael eu gosod gan bob corff dyfarnu ym manyleb y pwnc ac mae'n **rhaid** i bob ymgeisydd gyflawni'r rhain.
- Mae canolfannau'n asesu ymgeiswyr gan ddefnyddio Meini Prawf Asesu Ymarferol Cyffredinol (CPAC) a gyhoeddwyd ar y cyd gan yr holl gyrff dyfarnu. Mae'r CPAC yn seiliedig ar ofynion yr atodiad priodol o'r cynnwys pwnc rhagnodedig, a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg. Maent yn diffinio'r safon isaf sy'n ofynnol ar gyfer gradd 'Llwyddo'.
- Bydd ymgeiswyr sy'n dangos y safon ofynnol ar draws yr holl CPAC yn gyson ac fel mater o drefn, gan ymgorffori'r holl sgiliau, cyfarpar a thechnegau (fel sydd wedi'i ddiffinio yn atodiad priodol cynnwys pwnc yr Adran Addysg), yn derbyn gradd 'Llwyddo' ar ddiwedd y cwrs.

Gall ymgeiswyr weithio mewn grwpiau, ond dylai athrawon fod yn hyderus o gymhwysedd pob unigolyn wrth ddyfarnu gradd 'Llwyddo'.

Ym mhob manyleb, mae o leiaf 12 o weithgareddau wedi'u rhagnodi. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi cyfleoedd i ddangos cymhwysedd ym mhob un o'r sgiliau gofynnol ac wrth ddefnyddio'r holl gyfarpar a thechnegau sydd wedi'u nodi ar gyfer pob pwnc. Mae manylebau rhai cyrff dyfarnu yn gofyn i ymgeiswyr gynnal yr holl weithgareddau a nodwyd. Ym mhob manyleb gall ymgeiswyr hefyd ddangos y cymwyseddau mewn unrhyw weithgareddau ymarferol ychwanegol a gynhelir yn ystod y cwrs astudio sy'n rhoi sylw i ofynion y CPAC ac sydd ar Lefel 3 o ran her.

## Cadw cofnodion yn y ganolfan

**Rhaid** i bob canolfan gadw cofnod ysgrifenedig o'r canlynol:

- cynlluniau i gynnal gweithgareddau ymarferol digonol sy'n bodloni gofynion CPAC, gan ymgorffori sgiliau a thechnegau sydd wedi'u nodi yn atodiad priodol cynnwys pwnc a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg, dros gyfnod y Safon Uwch;
- pob gweithgaredd ymarferol a wneir a'r dyddiad cyflawni;
- y meini prawf sy'n cael eu hasesu yn y gweithgaredd ymarferol hwnnw;
- presenoldeb ymgeiswyr;
- manylion yr ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf a'r rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf;
- gwaith ymgeiswyr sy'n dangos y dystiolaeth ofynnol ar gyfer y dasg benodol honno gyda dyddiad(au), ynghyd ag unrhyw ddeunyddiau cysylltiedig a ddarparwyd ar gyfer y gweithgaredd ymarferol e.e. cyfarwyddiadau ysgrifenedig a roddwyd.

## Cadw cofnodion gan yr ymgeisydd

**Rhaid** i ymgeiswyr gadw cofnod o'u gwaith ymarferol, gan gynnwys eu gweithgareddau ymarferol a aseswyd a'r dyddiadau. Nid yw'r ffurf wedi'i nodi, gan ei fod yn bwysig bod ymgeiswyr yn cofnodi eu profiadau ymarferol yn eu ffyrdd eu hunain. Gallai gynnwys:

- llyfrau lab (gan ganiatáu i'r holl gofnodion gael eu cadw mewn un lle);
- ffolderi ymgeiswyr;
- systemau ar y cyfrifiadur;
- llyfrau gwaith wedi'u hargraffu ymlaen llaw.

## Monitro

Mae sicrhau ansawdd yr arnodiad ymarferol yn cael ei gefnogi gan ymweliadau monitro gan y corff dyfarnu. Gan fod y gweithgareddau ymarferol ar gyfer yr arnodiad yn cael eu cynnal drwy gydol dwy flynedd y cwrs Safon Uwch, gellir cael ymweliad yn y flwyddyn gyntaf neu'r ail.

Bydd pob canolfan yn cael ymweliad (neu wedi cael ymweliad) o leiaf unwaith, mewn o leiaf un o'r Gwyddorau, (Safon Uwch Bioleg, Cemeg neu Ffiseg) yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi 2024 a mis Mai 2026. Os oes mwy na 140 o ymgeiswyr yn dilyn unrhyw un o'r Gwyddorau Safon Uwch mewn canolfan, yna bydd y ganolfan yn derbyn ymweliad ar gyfer pob un o'r gwyddorau.

Bydd canolfannau yn derbyn ymweliad ar wahân ar gyfer Safon Uwch Daeareg.

Pwrpas yr ymweliad yw sicrhau bod y ganolfan yn rhoi gofynion yr arnodiad ymarferol ar waith yn briodol ac yn defnyddio'r meini prawf asesu (CPAC) yn gywir.
**Nid** bwriad y broses monitro yw cymedroli nac addasu canlyniadau ymgeiswyr unigol.

## Yr ymweliad â'r ganolfan

Bydd y swyddog monitro yn cysylltu â'r swyddog arholiadau yn y ganolfan a bydd gofyn iddo drosglwyddo'r wybodaeth i'r athro arweiniol er mwyn trefnu ymweliad gydag o leiaf pythefnos o rybudd.

Ar ddiwrnod yr ymweliad â'r ganolfan bydd y swyddog monitro yn gwneud y canlynol:

- arsylwi gweithgaredd ymarferol yn cael ei gynnal;
- adolygu'r cofnodion sy'n cael eu cadw gan y ganolfan a gan sampl o ymgeiswyr;
- siarad gyda staff ac ymgeiswyr.

Bwriad yr ymweliad yw pennu gallu'r ganolfan i asesu ymgeiswyr yn y gymeradwyaeth ymarferol, yn hytrach na phenderfynu ar gyflawniad ymgeiswyr. Felly nid yw'n angenrheidiol, a byddai'n wrthgynhyrchiol, i ymarfer gweithgaredd ymarferol y bydd y swyddog monitro yn ei arsylwi.

Bydd y swyddog monitro yn paratoi cofnod ysgrifenedig o'r ymweliad ac yn anfon copi i'r ganolfan, gan nodi a yw'n cytuno â gweithrediad y ganolfan o'r gofynion a'r meini prawf asesu (CPAC) ai peidio.

Os **nad yw**'r swyddog monitro'n cytuno â barn y ganolfan, bydd yn darparu canllawiau o ran y mesurau mae angen i'r ganolfan eu rhoi ar waith. Gallai canlyniad o'r fath arwain at ymweliad â'r Gwyddorau eraill (Bioleg, Cemeg a/neu Ffiseg) gan y corff/cyrff dyfarnu perthnasol yn ogystal ag ymweliad arall ar gyfer y wyddor oedd wedi'i monitro. Os oes angen ymweliadau ychwanegol, efallai y codir ffi atodol.

Mae'n bosibl y bydd y swyddog monitro yn cytuno â'r ffordd mae canolfan yn defnyddio'r CPAC, ond eto yn cynnwys canllawiau ar welliannau y gellir eu gwneud.

## Beth os yw canolfan yn anghytuno â'r swyddog monitro?

Os yw canolfan yn anghytuno â chanlyniad yr ymweliad monitro, gallai wneud cais am ymweliad arall gan swyddog monitro gwahanol. Efallai y codir ffi am y gwasanaeth hwn.

**Trefniadau amgen i ganolfannau**

- Er mwyn cynnig y gwyddorau Safon Uwch, **rhaid** i ganolfan allu darparu gwaith ymarferol a'r arnodiad ymarferol.
- Lle nad oes gan ganolfan gyfleusterau labordy a'i bod yn ymgymryd â'r arnodiad ymarferol mewn safle neu leoliad arall, neu mewn terfyn amser wedi'i fyrhau, bydd ymweliad penodol yn cael ei wneud ar ddyddiad diffiniedig pan fo gweithgareddau ymarferol yn cael eu cynnal.
- Lle mae ymgeiswyr o fwy nag un ganolfan yn ymgymryd â gwaith ymarferol gyda'i gilydd gan ddefnyddio trefniadau addysgu ar y cyd, **rhaid** i'r ganolfan sy'n cael ei monitro roi gwybod i swyddog monitro'r corff dyfarnu am drefniadau o'r fath pan cysylltir â hi. Lle mae dosbarthiadau gwahanol ym mhob canolfan, yna bydd ymweliadau monitro'n digwydd gyda'r holl ganolfannau mewn cadwyn academi neu gonsortiwm.

**Absenoldeb ac eithriadau ymgeiswyr**

Lle mae ymgeisydd yn methu gweithgaredd ymarferol rhagnodedig drwy absenoldeb, **rhaid** i'r ganolfan drefnu sesiwn arall ar ei gyfer, neu ddarparu cyfleoedd i'r ymgeisydd arddangos y technegau a'r sgiliau angenrheidiol.

Mae'n ofyniad rheoleiddiol i bob ymgeisydd arddangos y sgiliau a'r technegau a nodwyd drwy gynnal o leiaf 12 gweithgaredd. **Ni fydd** ymgeiswyr nad ydynt yn llwyddo i wneud hyn oherwydd absenoldeb yn gymwys am ystyriaeth arbennig a byddant yn derbyn canlyniad 'Annosbarthedig' am y gymeradwyaeth sgiliau ymarferol.

Os na all ymgeisydd gael mynediad at yr arnodiad oherwydd nam sylweddol, dylid cyfeirio at adran 5.17 dogfen y CGC – *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol*: https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

Pan fydd corff dyfarnu yn caniatáu eithriad bydd nodyn yn cael ei roi ar dystysgrif yr ymgeisydd.

**Canolfannau sy'n newid i gorff dyfarnu arall**

Lle mae canolfan yn bwriadu newid corff dyfarnu, **rhaid** rhoi gwybod i'r cyrff dyfarnu perthnasol cyn gynted â phosibl.

Os nad oes ymweliad wedi'i gynnal eto, bydd y manylion diweddaraf yn cael eu defnyddio wrth drefnu'r ymweliad.

Os oes ymweliad eisoes wedi'i gynnal yn yr Wyddor y mae'r ganolfan wedi symud ati, bydd y penderfyniadau canlyniadol yn ddilys o hyd.

**Ymgeiswyr sy'n symud i ganolfan newydd yn ystod y cwrs**

Er mwyn dyfarnu gradd 'Llwyddo', mae'n rhaid i'r ganolfan newydd gymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn fodlon ei bod wedi llwyddo i ymdrin â phob un o'r pum cymhwysedd a'r holl sgiliau a thechnegau mewn o leiaf 12 gweithgaredd ymarferol (yn un o'r canolfannau neu'r ddwy).

**Ailddefnyddio (trosglwyddo) graddau sgiliau ymarferol**

Mae'n bosibl i ymgeisydd sy'n ailsefyll cymhwyster Safon Uwch Bioleg, Cemeg, Daeareg neu Ffiseg ofyn am drosglwyddo (h.y. trosglwyddo i gofrestriad newydd) gradd flaenorol ar gyfer yr arnodiad sgiliau ymarferol, hyd yn oed os dyfarnwyd y radd gan gorff dyfarnu gwahanol.

Os oes gan ymgeisydd ddwy radd arnodiad blaenorol neu fwy, bydd y radd ddiweddaraf yn cael ei defnyddio hyd yn oed os yw'r radd honno'n 'Annosbarthedig'.

Os yw ymgeisydd yn ailsefyll yr arnodiad a chyflwynir gradd newydd, bydd y radd newydd yn cael ei defnyddio.

Gellir trosglwyddo gradd arnodiad yn unig lle mae gradd, gan gynnwys Annosbarthedig, wedi'i dyfarnu ar gyfer y cymhwyster Safon Uwch.

**Sancsiynau**

- Os yw ymweliad monitro yn dangos nad yw canolfan yn rhoi gofynion yr arnodiad ymarferol ar waith yn briodol, bydd y corff dyfarnu yn rhoi canllawiau ar y gwelliannau sydd angen eu gwneud.
- Os yw ymweliad monitro yn dangos nad yw canolfan yn asesu'r safon genedlaethol gywir, efallai y bydd angen i'r athro arweiniol gymryd rhan mewn hyfforddiant pellach.
- Gallai methiant ar ran y ganolfan i weithredu mewn ymateb i'r uchod neu i ddarparu datganiad i gadarnhau bod yr holl ymgeiswyr wedi cael y cyfle i gymryd rhan yn y gweithgareddau ymarferol rhagnodedig, arwain at roi dyfarniad 'Annosbarthedig' i'r arnodiad.

**Camymddwyn**

- Os yw'n dod i'r amlwg bod athro wedi dyfarnu gradd 'Llwyddo' i ymgeisydd nad yw wedi cwblhau'r gweithgareddau ymarferol angenrheidiol yn foddhaol, bydd gofyn i bennaeth y ganolfan gynnal ymchwiliad i'r amgylchiadau a rhoi gwybod i'r corff dyfarnu. Gall canlyniadau gan rai o'r ymgeiswyr neu'r holl ymgeiswyr yn y ganolfan gael eu tynnu'n ôl a gallai'r athro fod yn destun ymchwiliad camymddwyn.
- Mae methiant ar ran pennaeth y ganolfan i roi cyfle i'r holl ymgeiswyr gymryd rhan yn y gweithgareddau ymarferol yn torri gofynion y fanyleb a bydd y corff dyfarnu yn ymchwilio iddo, a all roi gwybod i gyrff dyfarnu eraill a'r rheoleiddiwr.
  Bydd trefniadau'r ganolfan ar gyfer y garfan nesaf yn cael eu monitro'n ofalus.
- Oherwydd natur y gwaith sy'n ofynnol, mae llai o gyfleoedd i ymgeiswyr gamymddwyn, ond lle mae'n digwydd, mae'r gweithdrefnau camymddwyn safonol sydd wedi'u cyhoeddi yn berthnasol.

**Atodiad 2**

# Arnodiad Iaith Lafar ar gyfer manylebau TGAU Saesneg Iaith a ddyluniwyd i'w ddefnyddio yn Lloegr

## Cyflwyniad

Mae gan TGAU Saesneg Iaith gydran arnodedig sy'n ymwneud ag Iaith Lafar. Mae gan yr arnodiad hwn nifer o nodweddion sy'n ei osod ar wahân i'r rhan fwyaf o gydrannau cymwysterau cyffredinol, yn benodol:

- bydd yn cael ei gofnodi fel gradd ar wahân ('Llwyddo', 'Teilyngdod', 'Rhagoriaeth' neu 'Annosbarthedig') ac **ni fydd** yn cyfrannu at ganlyniad y cymhwyster TGAU Saesneg Iaith;
- ni fydd unrhyw farciau'n cael eu neilltuo – bydd yn cael ei asesu'n gyfannol fel gradd;
- bydd yn cael ei asesu ar sail 'cymhwysedd' gan ddefnyddio meini prawf y cytunwyd arnynt – i dderbyn gradd mae'n **rhaid** i ymgeiswyr gyflawni'r holl feini prawf ar gyfer y radd honno.

Bydd yr arnodiad yn cael ei asesu gan ganolfannau. Bydd trefniadau monitro ar waith a thrwy'r rhain bydd cyrff dyfarnu'n gwirio'r canlynol:

- bod canolfannau wedi defnyddio tasgau priodol;
- bod canolfannau wedi defnyddio'r meini prawf asesu yn gywir ac yn gyson – ni wneir unrhyw addasiadau i asesiadau canolfannau.

At bwrpasau monitro, mae gofyn i bob canolfan ddarparu recordiadau clyweledol o gyflwyniadau sampl o ymgeiswyr.

## Cofrestriadau a datganiad canolfan

Mae cofrestriadau ar gyfer TGAU Saesneg Iaith yn cynnwys yr arnodiad Iaith Lafar yn awtomatig.

Bydd tystysgrif yn cael ei chyhoeddi ar gyfer TGAU Saesneg Iaith lle mae'r ymgeisydd wedi cael gradd (9-1). Bydd y canlyniad ar gyfer yr arnodiad (gan gynnwys 'Annosbarthedig') yn cael ei nodi ar y dystysgrif.

**Rhaid** i bennaeth canolfan lofnodi datganiad yn cadarnhau bod yr holl gamau rhesymol wedi'u cymryd, neu y byddan nhw'n cael eu cymryd, i sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn y ganolfan wedi cael, neu y byddan nhw'n cael, y cyfle i ymgymryd â'r arnodiad Iaith Lafar.

**Gosod tasgau a gwneud tasgau**

Rhaid i ymgeiswyr gymryd rhan mewn cyflwyniad llafar wedi'i baratoi ar bwnc penodol. Fel canllaw, ni ddylai fod yn fwy na 10 munud o hyd. Mae'r gofynion fel a ganlyn:

- Gallai cyflwyniadau fod ar ffurfiau amrywiol, gan gynnwys sgyrsiau, dadleuon, areithiau a deialogau.
- Dylid pennu'r ffurf briodol gan yr athro, wedi trafod gyda'r ymgeisydd. Dylai'r fformat a ddewiswyd ganiatáu i ymgeiswyr ddangos yn llawn eu galluoedd Iaith Lafar.
- Mae'n **rhaid** i ymgeiswyr nodi'r pwnc ar gyfer eu cyflwyniadau ymlaen llaw a chytuno arno gyda'u hathro.
- Mae'n **rhaid** cynllunio a threfnu cyflwyniadau. Dylid cynghori ymgeiswyr bod diffyg paratoi yn debygol o atal mynediad at y meini prawf ar gyfer y graddau uwch.
- Gallai ymgeiswyr ddefnyddio nodiadau y maent wedi'u paratoi i'w helpu yn ystod eu cyflwyniadau ond **nid** yw hyn yn angenrheidiol.
- Nid oes terfynau geiriau, cyfyngiadau tudalennau na chyfyngiadau eraill o ran nodiadau.
- Dylai athrawon gynghori ymgeiswyr ei bod hi'n annhebygol y bydd darllen yn llwyr o'r nodiadau a baratowyd ymlaen llaw yn eu galluogi i gyrraedd y meini prawf ar gyfer y graddau uwch sy'n gofyn am ymgysylltu â'r gynulleidfa.

Fel rhan o'r cyflwyniad, neu ar ôl y cyflwyniad, mae'n **rhaid** i ymgeiswyr wrando ar gwestiynau ac adborth, ac ymateb yn briodol. Felly, mae gwneud tasgau hefyd yn cynnwys y gofynion canlynol:

- **Rhaid** i ymgeiswyr roi eu cyflwyniad gerbron cynulleidfa, ac **mae'n rhaid** i'r gynulleidfa gynnwys yr athro **bob amser**.
- Dylai'r athro bennu maint a chyfansoddiad y gynulleidfa, wedi trafod gyda'r ymgeisydd.
- Lle mai'r athro yn unig yw'r gynulleidfa, dylid dylunio'r cyflwyniad a'r deialog mewn ffordd y gallai fod yn addas i gynulleidfa ehangach, yn hytrach nag un person yn unig (e.e. mae'n efelychu cyfweliad teledu).
- Mae'n fwy tebygol y gall cynulleidfa sy'n cynnwys dau berson greu'r amgylchiadau lle gall ymgeisydd ddangos y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i gyrraedd y lefelau cyrhaeddiad uwch a nodir yn yr asesiad iaith lafar. Dylai'r gynulleidfa gynnwys unigolion sy'n gallu rhoi cyfleoedd i'r ymgeisydd ymateb i gwestiynau ac adborth priodol.

Mae'r fformat gwneud tasgau yn hyblyg. Nid oes gofyn cyflwyno i ymgeiswyr eraill. Darperir cyngor pellach ym manyleb a/neu ganllawiau pob corff dyfarnu.

**Asesu a safoni mewnol**

Dylid asesu ymgeiswyr naill ai yn fyw neu o recordiadau, gan ddefnyddio'r meini prawf asesu cyffredin sydd wedi'u datblygu ar y cyd gan y cyrff dyfarnu a'r athrawon.

Mae athrawon yn dyfarnu graddau ('Llwyddo', 'Teilyngdod' neu 'Ragoriaeth') – nid oes marciau. **Rhaid** cofnodi bod ymgeiswyr **nad ydynt** yn cyrraedd safon 'Llwyddo' yn 'Annosbarthedig'. Er mwyn cyflawni gradd benodol, mae'n rhaid i ymgeiswyr fodloni'r **holl** feini prawf ar gyfer y radd honno. **Nid yw'r** dull cydadferol 'ffit orau' a ddefnyddir fel arfer mewn asesiadau TGAU yn berthnasol. Mae manylion pellach ar gael yn y canllawiau a'r cyngor a gaiff eu darparu gan y cyrff dyfarnu.

**Rhaid** i ganolfannau wneud trefniadau ar gyfer cymedroli asesiadau yn fewnol. Dylai hwn ddigwydd cyn gynted â phosibl cyn i'r asesu ddechrau. Dylai'r safoni mewnol gynnwys sesiwn asesiad prawf rhagarweiniol (yn cynnwys yr holl athrawon sy'n ymwneud ag asesiad) gan ddefnyddio deunydd enghreifftiol a ddarperir gan y corff dyfarnu. Bydd hyn yn sicrhau bod dealltwriaeth gyffredin o'r meini prawf asesu. Gallai hefyd gynnwys arsylwadau gan athrawon cyn iddynt ddechrau eu hasesiadau eu hunain. Gallai athrawon arsylwi sesiynau byw lle mae'r athro/athrawes arweiniol yn asesu ymgeiswyr. Yn yr un modd, gallai'r athro/athrawes arweiniol arsylwi rhai o'r sesiynau byw lle mae pob athro/athrawes yn asesu ymgeiswyr.

**Monitro**

Mae trefniadau monitro cyffredin ar waith, fel y cytunwyd arnynt gan y cyrff dyfarnu, er mwyn sicrhau bod canolfannau'n defnyddio tasgau priodol ac yn defnyddio'r meini prawf asesu yn gywir.

Mae'n **rhaid** i'r ganolfan ddarparu recordiadau o gyflwyniadau sampl o ymgeiswyr. Mae'n **rhaid** i recordiad o gyflwyniad pob ymgeisydd fod yn gyflawn a heb ei olygu, gan gynnwys cwestiynau ac adborth gan y gynulleidfa. Ni ddylid recordio unrhyw weithgareddau ar y dechrau neu'r diwedd nad ydynt yn rhan o'r asesiad, neu dylid eu golygu allan.

Gan ddefnyddio eu gwybodaeth o berfformiad tebygol ymgeiswyr, dylai canolfannau ddewis sampl gan ddilyn y canllawiau a ddangosir yn Nhabl 1 a'i droednodiadau. Argymhellir canolfannau i geisio recordio ychydig mwy na'r isafswm ar bob gradd er mwyn caniatáu ar gyfer ymgeiswyr y mae eu perfformiad yn derbyn gradd is neu uwch nag yr oedd y ganolfan yn ei disgwyl. Fodd bynnag, **nid oes** angen i ganolfan â sampl ar radd benodol sydd rhywfaint yn llai na'r isafswm a nodwyd yn y tabl gymryd camau pellach (e.e. recordio ymgeiswyr ychwanegol) i unioni'r sampl. Bydd cyrff dyfarnu'n rhoi manylion o ran storio a chyflwyno'r recordiadau.

**Tabl 1 – Maint y samplau**

| Nifer yr Ymgeiswyr yn y ganolfan | Nifer yr ymgeiswyr y mae'n rhaid recordio eu cyflwyniadau | Isafswm yr ymgeiswyr ar bob gradd (Rh, T, Ll)$^{+}$ |
|---|---|---|
| 30 neu lai | Pob ymgeisydd | 10$^{++}$ |
| Dros 30 | 30 | 10$^{+++}$ |

Dylai'r sampl gynrychioli'r grwpiau addysgu yn y ganolfan.

$^{+}$ Yr holl ymgeiswyr ar radd os oes gan y ganolfan lai na'r isafswm a nodwyd. Ni ddylid cynnwys ymgeiswyr a aseswyd yn 'Annosbarthedig'.

$^{++}$ Er enghraifft, os oes gan ganolfan 15 ymgeisydd Rh, 11 ymgeisydd T a 3 ymgeisydd Ll, bydd yr ymgeiswyr hyn i gyd yn y sampl.

$^{+++}$ Er enghraifft:

(a) os oes gan ganolfan 21 ymgeisydd Rh, 14 ymgeisydd T a 3 ymgeisydd Ll, bydd y sampl yn cynnwys 10 o'r ymgeiswyr Rh, 10 o'r ymgeiswyr T a'r holl ymgeiswyr Ll, gyda 7 ymgeisydd ychwanegol (o Rh a/neu T) i wneud y sampl cyfan yn 30.

(b) os nad oes gan y ganolfan unrhyw ymgeiswyr Rh, 7 ymgeisydd T a 60 ymgeisydd Ll, bydd y sampl yn cynnwys yr holl ymgeiswyr T a 23 o'r ymgeiswyr Ll.

Lle mae canolfan yn ofni nad yw'n gallu recordio'r nifer angenrheidiol o ymgeiswyr oherwydd pryderon (wedi'u mynegi gan yr ymgeiswyr eu hunain neu eu rhieni/gofalwyr) am ddiogelu, cyfrinachedd neu ffydd, mae'n **rhaid** i'r ganolfan gysylltu â'r corff dyfarnu cyn gynted â phosibl.

**Rhaid** cyflwyno'r asesiadau erbyn terfyn amser swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer cyflwyno asesiadau mewnol. Bydd y cyrff dyfarnu'n darparu manylion trefniadau gweinyddol. Bydd y swyddog monitro a benodwyd gan y corff dyfarnu yn edrych ar rai o recordiadau'r ganolfan neu'r cyfan, a bydd dadansoddiad ystadegol o asesiadau'r ganolfan.

Os oes pryderon o ran y monitro, bydd y ganolfan yn darparu cefnogaeth ychwanegol (a allai gynnwys ymweliad gan swyddog monitro) ym mlwyddyn academaidd 2026-27. Efallai y bydd mwy o drefniadau monitro a allai gynnwys terfyn amser cynharach i gyflwyno asesiadau neu ofyniad i recordio cyflwyniadau'r holl ymgeiswyr.

**Trefniadau Consortiwm**

Mae'r trefniadau consortiwm arferol yn berthnasol – gweler adran 6.3.

**Rhaid** i'r consortiwm ddewis sampl o recordiadau yn unol â'r gofynion yn Nhabl 1 a'r testun ategol fel y nodir uchod.

**Absenoldeb ac eithriadau ymgeiswyr**

Lle mae ymgeisydd yn colli'r amser neu'r dyddiad wedi'i drefnu ar gyfer ei gyflwyniad, mae'n rhaid i'r ganolfan drefnu sesiwn arall.

**Ni fydd** ymgeisydd nad yw'n gallu gwneud ei gyflwyniad oherwydd absenoldeb parhaus (p'un ai drwy salwch a/neu unrhyw reswm arall) yn gymwys am ystyriaeth arbennig a bydd yn derbyn canlyniad 'Annosbarthedig' am y gymeradwyaeth Iaith Lafar. Os yw'r ganolfan yn dymuno cynnal yr asesiad mewn lleoliad arall, dylid cysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol am gyngor.

Os na all ymgeisydd gael mynediad at yr arnodiad oherwydd nam sylweddol, dylid cyfeirio at adran 5.17 dogfen y CGC – *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol:*
https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

Pan fydd corff dyfarnu yn caniatáu eithriad bydd nodyn yn cael ei roi ar dystysgrif yr ymgeisydd.

**Ymgeiswyr sy'n symud i ganolfan newydd yn ystod y cwrs**

Os yw ymgeisydd yn symud i ganolfan newydd ar ôl i'w asesiad Iaith Lafar gael ei gynnal, mae canlyniad yr asesiad yn parhau i fod yn ddilys. Dylai'r ganolfan newydd gysylltu â'r corff dyfarnu am fanylion o ran trefniadau gweinyddol.

**Ailddefnyddio (trosglwyddo) graddau Iaith Lafar**

Mae'n bosibl i ymgeisydd sy'n ailsefyll cymhwyster TGAU Saesneg Iaith ofyn am drosglwyddo (h.y. trosglwyddo i gofrestriad newydd ar gyfer TGAU Saesneg Iaith) gradd flaenorol ar gyfer yr arnodiad Iaith Lafar, hyd yn oed os dyfarnwyd y radd gan gorff dyfarnu gwahanol.

Os oes gan ymgeisydd ddwy radd arnodiad blaenorol neu fwy, bydd y radd ddiweddaraf yn cael ei defnyddio hyd yn oed os yw'r radd honno'n 'Annosbarthedig'.

Os yw ymgeisydd yn ailsefyll yr arnodiad a chyflwynir gradd newydd, bydd y radd newydd yn cael ei defnyddio.

Gellir ond trosglwyddo gradd arnodiad lle mae gradd, gan gynnwys Annosbarthedig, wedi'i dyfarnu ar gyfer cymhwyster TGAU Saesneg Iaith.

**Camymddwyn**

- Os yw'n dod i'r amlwg bod athro wedi dyfarnu gradd i ymgeisydd nad yw wedi cynnal cyflwyniad yn y modd gofynnol, bydd gofyn i bennaeth y ganolfan gynnal ymchwiliad i'r amgylchiadau a rhoi gwybod i'r corff dyfarnu. Gall canlyniadau gan rai o'r ymgeiswyr neu'r holl ymgeiswyr yn y ganolfan gael eu tynnu'n ôl a gallai'r athro fod yn destun ymchwiliad camymddwyn.
- Mae methiant ar ran pennaeth y ganolfan i roi cyfle i'r holl ymgeiswyr i gymryd rhan mewn cyflwyniad Iaith Lafar yn torri gofynion y fanyleb a bydd y corff dyfarnu yn ymchwilio iddo. Bydd y corff dyfarnu yn rhoi gwybod i gyrff dyfarnu eraill a'r rheoleiddiwr. Bydd trefniadau'r ganolfan ar gyfer y garfan nesaf yn cael eu monitro'n ofalus. Lle **nad yw** ymgeiswyr yn rhoi cynnig ar yr arnodiad, cofnodir gradd o 'Annosbarthedig'.
- Oherwydd natur y gwaith sy'n ofynnol, mae llai o gyfleoedd i ymgeiswyr gamymddwyn, ond lle mae'n digwydd, mae'r gweithdrefnau camymddwyn safonol sydd wedi'u cyhoeddi yn berthnasol.

**Atodiad 3**

## Ymgeiswyr sy'n dysgu o bell

Gall ymgeiswyr sy'n dysgu o bell gydymffurfio â gofynion y manylebau TAG a TGAU, gan gynnwys cydrannau asesiadau di-arholiad, yn y ffordd ganlynol:

Cyn dechrau ar unrhyw waith ar gyfer cydran asesiad di-arholiad, **rhaid** i'r ymgeisydd sy'n dysgu o bell ymrestru/cofrestru â chanolfan sydd wedi'i **chymeradwyo gan y corff dyfarnu perthnasol**. **Mae hyn yn cynnwys Darparwyr Dysgu o Bell, sy'n ganolfannau arholi wedi'u cymeradwyo**. Bydd y ganolfan, gan gynnwys y Darparwr Dysgu o Bell, sydd wedi'i chymeradwyo gan y corff dyfarnu perthnasol, yn gweinyddu pob agwedd ar y broses asesu di-arholiad, yn unol â manyleb y corff dyfarnu. Diffinnir hyn fel canolfan gofrestru'r ymgeisydd.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am ymgeiswyr preifat yn:

www.aqa.org.uk/student-support/private-candidates

Private candidates - OCR

https://qualifications.pearson.com/en/support/support-topics/registrations-and-entries/academic-registrations-and-entries/private-candidates.html

https://www.cbac.co.uk/home/cefnogaeth-i-fyfyrwyr/ymgeiswyr-preifat/

**Bydd y ganolfan sy'n cofrestru yn gyfrifol am addysgu'r cwrs, gan gynnwys pob agwedd ar osod, dilysu a marcio gwaith yr ymgeisydd**.

Efallai y bydd y ganolfan sy'n cofrestru yn, neu ddim yn, gallu cynnal arholiadau ysgrifenedig. Os nad yw'r ganolfan yn gallu cynnal yr arholiadau ysgrifenedig, bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am ddod o hyd i ganolfan sy'n barod i gynnal yr arholiadau ysgrifenedig.

Lle bo angen, unwaith bydd yr ymgeisydd wedi dod o hyd i 'ganolfan letyol', bydd y ganolfan sy'n cofrestru yn cychwyn ar y broses trefniant trosglwyddo ymgeiswyr. **Rhaid cwblhau'r broses erbyn y terfyn amser a gyhoeddwyd**. Bydd ffi yn daladwy i'r corff dyfarnu gan y ganolfan sy'n cofrestru ar gyfer y trefniant trosglwyddo ymgeisydd.

**Rhaid** i Ddarparwr Dysgu o Bell **nad** yw'n darparu addysgu 'wyneb yn wyneb' gydymffurfio â gofynion y corff dyfarnu ar gyfer asesu di-arholiad. Er mwyn cyflawni hyn **rhaid** bod patrwm o gyswllt rheolaidd rhwng yr ymgeisydd ac unrhyw diwtor(iaid) a neilltuwyd iddo cyn dechrau ar y gwaith. Dylai'r cyswllt rheolaidd hwn ddigwydd hyd y cyflwynir y gwaith. **Rhaid** i'r broses hon fod wedi'i chytuno gyda'r corff dyfarnu cyn i'r ymgeisydd gychwyn ar y cwrs.

Yn ystod cyswllt o'r fath, **rhaid** i'r tiwtor(iaid) sicrhau y cedwir, neu cadwyd, at yr holl reolau asesu di-arholiad yn llwyddiannus.

**Rhaid** i'r tiwtor(iaid) ddilysu gwaith yr ymgeisydd a, lle mae'n berthnasol, gofnodi unrhyw ffactorau a allai effeithio ar eu barn am yr asesiad, gan gynnwys faint o gefnogaeth y gofynnwyd amdani gan yr ymgeisydd.

**Rhaid** i'r tiwtor(iaid) fod yn ddigon cyfarwydd â safon gyffredinol yr ymgeisydd i farnu p'un ag yw darn o waith a gyflwynir o fewn ei allu.

**Rhaid** i'r ganolfan sy'n cofrestru farcio gwaith yr ymgeisydd, ac mae'n **rhaid** iddo fod yn unol â chynllun marcio cyhoeddedig y corff dyfarnu.

Bydd y corff dyfarnu yn cyhoeddi canlyniadau a thystysgrifau i'r ganolfan sy'n cofrestru.

**Rhaid** i'r ganolfan sy'n cofrestru roi gwybod i'r ymgeiswyr sy'n dysgu o bell bod nifer o gostau yn gysylltiedig â'r broses o gofrestru am arholiadau.